

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 336 - 60c
Medi 2015

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Elin yn
cefnogi'r
ffermwyr**



Tudalen 3

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 22

**Athrawes
yn ymddeol
rôl cyfnod hir**



Tudalen 29

Rhifyn Mawr Gweithgareddau'r Haf



Rhodri Price, Ysg Bro Pedr (Hŷn) yn ennill yr eitem orau yn yr Adran Celf a Chrefft yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen dros Benwythnos Gŵyl y Banc.



Endaf Griffiths o Gwmsychpant yn fardd cadeiriol Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen eleni. Ysgrifennodd gyfres o englynion ar feirdd ac awduron lleol.



Yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen dros Benwythnos Gŵyl y Banc, Bardd y Goron oedd Iwan Davies o Landudoch. Yn y llun gwelir ef gyda dawnswyr y Ddawns Flodau o Ysgol Carreg Hirfaen. Hyfforddwyd hwy gan Sally Saunders.

Disgyblion galluog



TGAU - Miranda Parry, Jessica Davies, Fran Challis, Charlie Roper, Meirion Thomas, Carys Jones, Rhys Davies, Iwan Evans, Jenny Carter, Ceri Pickett, Joe Coard a Morgan Lewis.



SAFON UWCH - Rhes Gefn- Cory Lloyd, Caleb Davis, Gethin Morgan, Rhian Evans a Carys Jones. Rhes Ganol - Hannah Cooper, Hannah Evans, Sioned Fflur Evans, Caryl Thomas a Sulwen Richards. Rhes flaen - Natalie Harding, Ciara Redmond, Shannon Evans, Sophie Jones gyda Luigi Challis y tu blaen. Llonyfarchiadau a phob dymuniad da i bawb o Fl. 13 yn y dyfodol.

2015

Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

16eg o Hydref

Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30

Neuadd Felin-fach

Mynediad £3

Arweinydd y noson
Cen Llwyd

Beirniaid
Trefor Pugh a
Donald Morgan

O'r Llwyfan

Dweud Jôc

Sgets, gyda dim mwy na
chwech mewn nifer yn
y grŵp, i bara dim mwy
na phum munud. Testun
- Etholiad

Cystadleuaeth Dweud Stori a Gwneud
Stumiau/Synau i Bâr. Ceir y stori ar y
noson

Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3
i'r sawl ddaw yn ail ac 1 i'r trydydd.
Cyflwynir tîws wedi ei noddi gan y Lolfa i'r papur bro sydd
â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu

Cefnogwch eich papur bro!



Y TINCER

Y Barcud

y Garthen

Y Dwrgi

Yr Angor

Llais Aeron

CLONC

Y GOLEN

Y Gambo

Papur Pawb

Gwaith Cartref

Ar gyfer plant oed cynradd - Peintio cymeriad cyfoes

Ar gyfer dysgwyr - Erthygl ddifyr ar gyfer papur bro
dim mwy na 300 o eiriau

Ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed
- erthygl ddiddorol ar gyfer papur bro
dim mwy na 300 o eiriau

Llunio brawddeg, gyda'r geiriau yn eu tro yn cychwyn
gyda'r llythrennau - L-L-A-I-N-D-E-L-Y-N

Gorffen lîmrig - Mae Cen yn meddwl mynd leni

Creu carden cyfarch ar gyfer unrhyw achlysur

Creu poster A4 ar gyfer Ffair Nadolig

Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw, gyda manylion
cyswilt ac enw papur bro mewn amlen wedi atodi)
erbyn y 5ed Hydref at:

David Greaney, 4 Tŷ Mawr
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3RF



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@lowri_fron

Awst 15

Werth mynd i Steddfod
Ddwl Gorsgoch, i
joino'r criw dethol sy di
ENNILL @cfillanwenog

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360

Awst 14

Tipyn o Sioe yn
#SioeLlanbed heddiw.
Da iawn bawb.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@NPTCwmTeifiCarm

Awst 11

Plant ardal Llanbed
yn beicio 7.7 milltir yn
Longwood heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@cfillanwenog

Awst 8

Tîm clwb yn Sioe
Cwm!! Go go go!!!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@CorCwmann

Awst 7

Cor Cwmann yn
Canu yn @eisteddfod
heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360

Awst 1

Digon o hwyl ar
ddiwrnod
#CarnifalLlanbed
heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Medi Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Hydref Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrein/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Ceredigion 2020?

Mae'n hen bryd i'r Eisteddfod Genedlaethol ddod i Geredigion. Rwy' wedi'i ddweud e droeon, ac mae'n siŵr nad fi yw'r unig un. Erbyn hyn mae'n harweinwyr gwleidyddol wedi datgan yr un dymuniad – diolch Elin Jones ein Aelod Cynulliad, ac Ellen ap Gwynn, arweinydd Cyngor Ceredigion. Ac felly, i bob golwg, mae'r sylw gafwyd yn y cyfryngau ddechrau Awst wedi codi momentwm ac ennill cefnogaeth i'r syniad.

Felly, beth yw'r rhagolygon ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yng Ngheredigion? Does gen i ddim dawn proffwydo, er mae'n debyg fod yna obaith go lew y cawn ni hi yn 2020. Ond y ddadl fawr fydd ym mhle! Bydd pob tref yn ymdrechu i'w chael hi mae'n siŵr, er mae'n annhebygol y caiff un tref ei pherchnogi; y patrwm diweddar gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yw nodi enw sir gyfan neu ardal eang – Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau oedd hi eleni, Eisteddfod Sir Gâr y llynedd, Eisteddfod Sir Fynwy fydd hi y flwyddyn nesa' – felly go brin y cawn ni Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llanbedr Pont Steffan eto, fel yn 1984.

1984: mae'n teimlo fel ddoe ar un llaw, ond eto i gyd, mae fel oes wahanol hefyd. A fyddai tref Llambled yn gallu rhoi cartref i'r Wyl fel ag y mae yn ei ffurf bresennol? A fyddai'r rhewlydd bach gwledig (mewn cymhariaeth â'r M4 a'r A55 p'run bynnag!) o gwmpas yn gallu ymdopi â llif y traffig? A oes yn yr ardal ddigon o westai ar gyfer yr ymwelwyr?

Mae'n deg holi hefyd PAM fy mod i (a llawer ohonoch chi gobeithio) eisiau i'r Brifwyl ddod i'n hardal ni. Oni fydd hyn i gyd yn holi am lot o waith a ffwdan – trefnu, pwyllgora, paratoi, ymarfer, ac yn waeth na dim efallai, codi arian? Wel, ydi, mae hyn i gyd yn wir, ond fel Cymry Cymraeg mae angen chwistrelliad o Gymreictod yn ei bro. Rydyn ni'n freintiedig neilltuol yn yr hyn sydd gennym ni, ond mae angen i bawb o'n cwmpas weld gwerth i'r Gymraeg fel iaith fyw sy'n fwy na iaith y dosbarth. Beth amdani – Eisteddfod Ceredigion 2020, a holl ddarlennwyr Clonc yn torchi'u llewys i fod yng nghanol y bwrlwm? Dyna fyddai braf!

Cloncen

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC




Mae tymor yr haf wastad yn gyfle i fynychu rhai o'r sioeau a digwyddiadau sydd mor bwysig i Geredigion. Rwy' wedi cael y cyfle eleni i fynychu nifer o sioeau bach. Trueni na chafwyd gwell tywydd, ond serch hynny braf oedd gweld bwrlwm torfeydd a safon cystadlu uchel.

Ond mae mynychu'r sioeau yng nghefn gwlad hefyd yn atgyfnerthu fod eleni'n flwyddyn anodd i amaeth yn ein sir. Mae prisiau cynnyrch fel llaeth ac ŵyn yn parhau i fod yn isel iawn. Rwy' wedi codi'r materion yma yn y Cynulliad sawl gwaith yn ystod y misoedd diwethaf. Mae rhesymau cymhleth dros y problemau yma – cryfder y bunt, ansefydlogrwydd yn Rwsia, a grym yr archfarchnadoedd. Ond mae rôl gan Lywodraethau ar lefel Gymreig a Phrydeinig i helpu'r diwydiant i oroesi'r amrywiaethau yma mewn prisiau. Mae mwy y gallwn ei wneud i sicrhau marchnadoedd i gig safonol Cymreig, ac i weithio gyda First Milk yn enwedig i wneud yn siŵr fod y diwydiant llaeth yn ffynnu yn y tymor hir.

Pwnc arall sydd wedi bod yn hawlio'r sylw yr haf yma yw cau canghennau banciau. Llynedd, caeodd NatWest ei changhennau yn Llandysul a Chei Newydd, ac nawr mae cynlluniau tebyg yn Aberaeron, Tregaron a Chastell newydd. Mae Barclays hefyd yn cwtdogi oriau agor rhai o'i changhennau gwledig. Rwy'n gwybod fod pobl yn gynyddol yn bancio ar-lein, ond dydy'r wasanaeth rhyngwryd ddim yn ddigon da o hyd mewn sawl lle, ac mae'n llawer gwell gan rai i fancio wyneb-yn-wyneb. Cefais gyfarfod yn ddiweddar lle gwnes i'r pwyntiau yma i swyddogion NatWest. Mae'n cymunedau ni'n haeddu gwell – yn enwedig gan fanciau lle bu'r trethdalwr yn hael pan aethant i drafferthion yn 2008.



Silian



Llongyfarchiadau

Yn Adran y Gwartheg Holstein yn Sioe Llambled aeth cwpan y Pencampwr i David Davies, Gwarffynnon, Silian.

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

**Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk



MEDI

- 2-3 Cynhadledd Ddwyieithog Flynyddol Adran Genhadol Chwiorydd Bedyddwyr Cymru (Senana) Ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant Llambod.
- 4-6 Penwythnos Preswyl Merched y Wawr yn Ngholeg Prifysgol y Drindod Dewi Sant Llambod.
- 6 Dathlu 175 Capel Bethel Parc-y-rhos. Cwrdd yng Nglan-rhyd am 1.30yp a cherdded i gapel Bethel erbyn 2yp a lluniaeth i ddilyn. Croeso i bawb.
- 6 Taith beicio nodedig. Elw tuag at Barnado's Cymru. Oedolion: Aberystwyth - Cors Caron (tua 17 milltir). Plant: Ystrad Meurig- Cors Caron (3 milltir). Croeso cynnes i bawb.
- 11 Noson yn Nghwmni Clive Edwards yn Tafarn y Talardd am 8yh. Mynediad drwy tocyn yn unig. Tocynnau ar werth: Annwen Evans 07971 816842 neu Carys Jones 01559 395 382.
- 12 Ffair Ram ar gaeau pentref Cwmann.
- 16 Cyfarfodydd Blynnyddol Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn Aberduar am 1.30 a 5.30y.p.
- 16 Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon, Llanybi am 2.00y.p. Pregethwr gwadd fydd y Parch Carwyn Arthur B.S.C., B.D. o Dregaron. Croeso cynnes i bawb.
- 17 Oedfa Eciwmenaid yn Shiloh Llambod am 7.00y.h.
- 21 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Felinfach am 7.00y.h.
- 21 Derbyn newyddion CLONC.
- 23 Cyfle i leisio eich barn parthed toriadau i gyllideb y sir yn y Coop Llanbed rhwng 10 a 12 o'r gloch a thu allan i Neuadd y Dref, Llambod rhwng 1 a 3y.p.
- 23 Meistri'r Dartiau yng nghwmni Gary Anderson, Tony O'Shea, Michael Smith a Darryl Fitton yn Neuadd Fictoria, Llambod. Tocynnau ar werth nawr trwy law Bedwyr Davies ar 07580 128039 neu 01570 423683.
- 25 Dalier sylw Dyddiad wedi newid ** Noson yng nghwmni "Bois ar Wasgar" ac aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn y Llew Du Llanybydder am 8.00y.h. Elw tuag at gangen Llanybydder o Gymdeithas Diabetes Cymru.
- 26 Eisteddfod Gadeiriol Felinfach.
- 26 Trip Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi.
- 27 Cwrdd Diolchgarwch Ebenezer, Llanybi am 2.00y.p. Y gennad fydd y Canon Aled Williams. Croeso cynnes i bawb.
- 28 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa Llambod am 7.00y.h.
- 28 Cyfarfod cyntaf y tymor o Ferched y Wawr Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.30yh yn blasu gwin gyda Megan Richards. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.
- 30 **Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p. Dewch i helpu eich Papur Bro.**

HYDREF

- 1 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7y.h. Parchedig Peter Cutts, Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.
- 3 Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn y Pafiliwn Rhyngwladol ar faes y Sioe Fawr yn Llanellwedd. Rhaglen lawn a ffurflen gofrestru ar gael ar ein gwefan: www.cymdeithasenwaulleoeddymru.org Dyddiad cau cofrestru: 25 Medi 2015.
- 4 Cyngerdd gan Gôr Dwyntant yng Nghapel Pantydefaid, Prengwyn am 7.00y.h.
- 4 Oedfa Deuluol Unedig Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi ym Methel Silian am 5y.h.
- 5 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7.00y.h. Pregethir gan Parch Alun Wyn Dafis, Cei Newydd.
- 7 Gyfarfod Diolchgarwch yn Eglwys Shiloh Llambod am 7.00y.h. Y pregethwr gwadd fydd y Parch Peter Thomas Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb
- 9 Tip-It yn Festri Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 8.00y.h.
- 9, 16 a 17 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin yn Neuadd San Pedr.
- 14 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos am 7.00y.h. gyda Gwyn Elfyn.
- 14 Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni, Llanllwni am 7.00y.h. Gwasanaethir gan y Parchedig Beti Wyn James. Croeso cynnes i bawb.
- 15 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm am 7.30y.h.
- 16 **Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.**
- 23 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion yn cynnal Cinio Cig Eidion yn Llanina, Llanarth.
- 26 Noson o Adloniant yng Nghwmni Hywel Gwynfryn am 7.30yh yn Festri Aberduar, Llanybydder. Tocynnau yn £4 oddi wrth Susan Evans ar 01570 480768.
- 26 Derbyn newyddion CLONC.
- 27 Noson Bingo gan Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghlwb Rygbi Llanybydder.
- 29 a 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 31 Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint. Manylion pellach wrth Mair Williams ar 01558650292.

TACHWEDD

- 4 **Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p. Dewch i helpu eich Papur Bro.**
- 21 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yng Nghanolfan Celfyddydau, Aberystwyth.
- 23 Trip gan Ferched Y Wawr, Llanybydder i Theatr Felinfach i weld Cwmni Bara Caws yn perfformio 'Difa'.
- 23 Derbyn newyddion CLONC.
- 27 Ffair Grefftau Flynyddol Pumsaint 2 - 6y.h. Elw at Gofal Cancr y Fron Cymru.
- 28 Ffair Grefftau Flynyddol Pumsaint 10yb - 4yp. Elw at Gofal Cancr y Fron Cymru.

RHAGFYR

- 2 **Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p. Dewch i helpu eich Papur Bro.**
- 5 Cyngerdd gan Bois y Frenni am 7.30y.h. yn Neuadd y Coroniad Pumsaint. Manylion pellach 01558 685439.
- 14 Merched y Wawr, Llanybydder yn canu carolau yn yr Anedd a Chwm Aur.
- 24 Gwasanaeth Golau Cannwyll yn Hen Gapel Llwynrhydowen am 9.00y.h.
- 25 Oedfa Nadolig yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 9.00y.b. Croeso cynnes i bawb.

Cefn Hafod
Gorsgoch
 Cyri bob nos Wener,
 £6 y pen
 Prydau bwyd ar gael drwy'r
 wythnos
 Nos Lun— Nos Sadwrn
 Bwyd Cartref a Chwrrw da.
 Croeso cynnes i bawb!
 01570 434 238

W.D. Lewis
a'l Fab
 Mastrachwyr / Amaschydol
 Agricultural Merchants
 Melin Mark Lane Mill
 Llanbedr Pont Steffan
 Ceredigion SA48 7AG
 Tel: 01570 422540
 Fax: 01570 423644
 www.wdlewisc.co.uk
 Hefyd yn
 Broneb Stores
 Pumsaint, Llanwrda
 Tel: 01558 650215

Cegin Coedlannau
 'Bwyd cartref ar gyfer
 pob achlysur'
 * Cacenau pen-blwydd gyda llun
 (ffotograff)
 * Bwffe mawr neu fach
 * Dantethion i de
 * Pwdinau
 * Arlwyd ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau
 Fach, Cwrtnewydd,
 01570 434 243
 07815 962 045

Alec Page
Gof
 Gwaith metal o safon
 i'r tŷ a'r ardd.
 Dewch i drafod eich syniadau.
 Yr Efail, Barley Mow,
 Llambod.
01570 423955
 www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS & BOURNE
 CYFREITHIWR.
 COMISIYNNWR LLWON
 Trosglwyddiadau a phob
 gwasanaeth cyfreithiol.
 Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford,
Llambod
01570 422206 01570423540
 A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
 Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Llanllwni



Mrs Morfudd Rees, Llywydd Diwrnod Hwyl Llanllwni yn dweud gair gyda Mr Eric Davies a Mr Dewi Davies o'r Cyngor Bro yn barod i gyflwyno plât iddi.



Llongyfarchiadau enfawr i Betsan Jones, C.Ff.I. Llanllwni am ennill cystadleuaeth ffasiwn a modelu dros Gymru a Lloegr yn ddiweddar. Camp gwefreiddiol ganddi, nid yn unig ennill ar lefel Sirol a Chymru, ond yn genedlaethol. Efallai y gwelwn hi yn y dyfodol ym Mharis neu Milan!



Ysgolion Sul Salem, New Inn; Gwyddgrug; a'r Eglwys, Llanllwni

Ar ddydd Mercher y 29ain o Orffennaf, aeth bwsed o blant ac oedolion o Ysgolion Sul Salem, New Inn; Gwyddgrug; a'r Eglwys, Llanllwni am drip ar y cyd i Benclacwydd ger Llanelli a thraeth Cefn Sidan. Buom yn ffodus o gael tywydd bendigedig ar ein taith, efo haul braf ac awyr las trwy gydol y dydd. Bu'r plant yn brysur iawn yn Penclacwydd, gan chwila, pysgota, bwyda'r adar a gweld y flamingo's bach yn y bore, ac yna mynd o amgylch ar y beiciau a'r safari canŵ yn y pwn. Ymlaen i'r traeth wedyn, lle bu'r rhai dewr yn ymdrochi yn y môr; a'r lleill yn ymlacio, adeiladu cestyll a mwynhau hufen iâ hamddenol. Wrth gwrs, nid yw'r un trip yn gyflawn heb sglodion, a chafwyd pryd blasus dros ben yn Cross Hands ar y ffordd nôl. Braf oedd cael cyfle i dair o Ysgolion Sul yr ardal i ymuno gyda'n gilydd am ddiwrnod bendigedig! Edrychwn ymlaen yn eiddgar am drip arall blwyddyn nesaf!

Cydymdeimlo

Danfwn ein cydymdeimlad llwyrat at Dewi Davies Glanafon ar golli ei fam yn ddiweddar.

Penblwydd Arbennig

Yn mis Gorffennaf dathlodd Mr Tom Bowen, Pwllglas ben-blwydd arbennig. Gobeithio eich bod wedi joio.

Diolch

Dymuna Tom, Pwllglas, ddiolch am y dymuniadau gorau, cardiau a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 70 yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Ysgol Llanllwni

Cawsom "Ddiwrnod Hwyl" llwyddiannus iawn ar Gae Chwarae'r Pentref ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 11eg. Roedd nifer wedi gwisgo eu gwisg ffansi yn y carnifal. Cafwyd hwyl yn y mabolgampau, yr "It's a Knockout" a Thynnu'r Gelyn. Roedd yno hefyd stondinau amrywiol a lluniaeth. Diolch i Lywyddion y dydd sef Mr. a Mrs. Melvyn Rees am eu rhodd hael. Roedd y dydd wedi cael eu drefnu ar y cyd gan y Cyngor Bro, Pwyllgor Rhieni yr Ysgol, yr Ysgol Feithrin a'r Clwb Ffermwyr Ifanc. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Cynhaliwyd Helfa Drysor llwyddiannus ar y diwrnod canlynol a dymunwn ddiolch i Donna ac Arwel am wneud y trefniadau. Yr enillwyr oedd Teulu Trysor. Diolch i bawb am gefnogi ac i John ac Ann, Y Talardd am eu croeso.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus yng nghystadlaethau mewn sioeau ac eisteddfodau yn ystod yr haf. Da iawn chi.

Croeso i Einir, Erin ac Aneurin i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Gobeithio y byddwch yn mwynhau yng nghwmni eich ffrindiau newydd.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Gorffennaf - 1af - £10 - Evan Evans, Penrallt, Maesycrugiau. 2ail - £5 - Marigold Smith, Frondeifi, Llanfihangel-ar-arth. 3ydd - £5 - Linda Miller, Llysalaw, Llanllwni.

Mis Awst - 1af - £50 - Wendy Rhodes, 4 Bryndulais, Llanllwni. 2ail - £40 - Louise Jones, Golygfa, Llanllwni. 3ydd - £30 - Elonwy Jones, Tirbanal, Llandoverly. 4ydd - £20 - Chase Aldridge, Siop y Pentre, Llanllwni. 5ed - £10 - Siôn Davies, Manordeifi, Llanllwni. 6ed - £5 - Phill Harvey, Cnwylili, Maesycrugiau.

C.Ff.I Llanllwni

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol yn y mis diwethaf, gan ethol y swyddogion canlynol am y flwyddyn sydd i ddod:- Cadeirydd - Carwyn Lewis; Ysgrifennyddes - Nerys Thomas; Trysorydd - Meryl Davies; Is-gadeirydd - Ifor Jones; Cofnodion - Marek Phillips; Y Wasg - Sioned Howells.

Llywyddion am y flwyddyn - Arwel a Marion Howells, Pantglas. Llywyddion etholedig - Alun ac Aileen Davies, Bryn y Coed.

Cylch Ti a Fi

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore dydd Gwener am 9.30yb hyd 11.30yb yn Ysgol Llanllwni.

Croeso i rieni, gofalwyr, mamgu's a thad -cus ddod gyda'i plant i gymryd rhan yn y gwahanol weithgareddau a chael cyfle i gael sgwrs dros banded.

Cwmann



Mae plant blwyddyn 6 Ysgol Carreg Hirfaen yn symud ymlaen i addysg uwch ac mae pawb yn yr ysgol yn dymuno pob llwyddiant iddyn nhw.



Cynhaliwyd cystadleuaeth pêl droed yng nghae y pentref Cwmann mis diwethaf. Dywedodd Aled Evans, prifathro Ysgol Carreg Hirfaen fod y noson wedi bod yn llwyddiant gyda nifer o ysgolion yr ardal wedi cymryd rhan.



Ormond Ruby's Delight yn ennill ei dosbarth i Ebolesi Blwydd Adran 'C' yn y Sioe Frenhinol ac yn ennill yr is-bencampwr benyw orau.

Llun - Anthony Reynolds



Dafad Balwen o eiddo Gethin Morgan, Cwmann yn Bencampwr defaid menyw y brîd ac Is-bencampwr yn y Sioe Frenhinol yn mynd i oen fenyw o'i eiddo. Yn ei gynorthwyo roedd Richard Morgan.

Ŵyr bach

Llongyfrachiadau i Andrew a Pat Jones, Glanhathren ar cael ŵyr bach arall, Rhodri Wilfred, mab bach i Morgan a Kate yng Nghaerfaddon.

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Lowri a Carwyn Gregson, Gwynfryn ar achlysur eu priodas ar ddiwedd mis Gorffennaf yng Nghapel Aberduar, Llanybydder. Dymuniadau da i chi.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Elan Jones, Araul am basio Gradd 4 ar y piano gyda chlod o dan nawdd y 'London College of Music'. Cafodd Elan farciau llawn yn y theori. Da iawn ti.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Gabrielle, Delfan sydd wedi treulio rhai diwrnodau yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar yn dilyn llaw-drinaeth. Gobeithio y byddi nôl yn y siop yn glori.

Cartref Newydd

Croeso i Kevin a Siân Douch i fyw i 3 Cwrt Deri. Gobeithio y byddwch yn mwynhau yn ein plith.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Canon Winzie Richards, Maesteifi ei ben-blwydd yn 90 oed ddiwedd mis Awst. Er nad yw wedi mwynhau'r iechyd gorau ers tipyn bellach, gobeithio ei fod wedi cael diwrnod i'w gofio yng nghwmni ei deulu a'i ffrindiau. Dymuniadau gorau iddo

Arholiadau

Llongyfarchiadau i Heini Thomas, Tŷ Hathren a Gethin Morgan, Llys Penparc ar eu llwyddiant yn lefel A. Pob lwc i chi i'r dyfodol.

Hefyd, llongyfarchiadau i bawb a wnaeth arholiadau TGAU. Dymuniadau gorau i chi.

Ar wellhad

Da gweld Terry Jones, Awel y Grug yn gwella yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Gwellhad buan i unrhyw un arall sydd wedi bod yn anhwylyd yn ystod yr haf.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Mrs Awen Harris, Rhydaman [gynt o Brynshop] a fu farw diwedd mis Awst.

Cerdd

Llongyfarchiadau i Undeg Jones ar basio Gradd 3 ar y Piano ac hefyd Gradd 3 ar y Ffliwt gyda Merit yn ddiweddar.

Neuadd Sant Iago – Clwb 125

1. W. J. Mason, 21 Treherbert, Cwmann, 130. 2. Wil Davies,

Blaennantcoy, Cellan, 1. 3. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 3. 4. P. Lodwick, Penbryn, Cwmann, 138. 5. Gavin a Rebecca Evans, Annwylfan, Llanllwni, 73. 6. Ceinwen Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 30. 7. Tony Hall, Glanaber, Cwmann, 75.

Clwb 225 - Mis Mehefin

1. Mr V. Jones, 40A, Stryd Fawr, Llambod. 52. 2. Jeff Evans, Llys-y-coed, Cwmann, 63. 3. Mr a Mrs Evans, Hafdre, Cwmann, 96. 4. Mr a Mrs D. Mildon, Gannets, Aberystwyth, 209. 5. Aled Davies, Tremle, Cwmann, 91. 6. Ian, d/o Bryngolau, Cwmann, 197. 7. Rhys Jones, Tanybryn, Cwmann, 21. 8. Sid Mason, Bryndolau, Pumsaint, 141. 9. Terry Davies, Murmur Teifi, Cwmann, 71. 10. Mrs Joan Davies, 38 Heol Hathren, Cwmann, 90.

Clwb 225 – Mis Gorffennaf

1. Mr. T. Harries, Castle View, Llanllwni, 175. 2. Angharad a Gareth, Garej Pontfaen, Llambod, 205. 3. Fiona Jones, Llysteifi, Cwmann, 121. 4. Mr a Mrs D. Jones, Cherry Pines, Cwmann, 122. 5. Mrs R. Harries, Castle View, Llanllwni, 203. 6. Donald a Helen Thomas, Tŷ Hathren, Cwmann, 43. 7. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 163. 8. Geoff Douch, 1 Heol y Fedw, Cwmann, 62. 9. Gwen Jones, Gellidewi Uchaf, Cwmann, 89. 10. Emyr Jones, Araul, Cwmann, 109.

Eglwys Sant Iago

Ar ddydd Sul, 14eg o Fehefin ymgasglodd aelodau a ffrindiau Eglwys Sant Iago yn y maes parcio ar fore heulog braf i fynd ar ein pererindod blynyddol lle yr oedd bws G&M yn ein disgwyl i gludo ni i lawr i Henllan i ymweld ag Eglwys y Carcharorion mewn lle cyn hyfryd ger afon Teifi.

Croesawyd ni i'r safle gan Mr Thompson a Mr Jon Meirion Jones a thywyswyd ni o amgylch a chael peth hanes cyn mynd fyny at yr eglwys hynafol. Roedd yn agoriad llygad i bawb.

Bu Mr Jones yn dweud hanes y carcharorion o'r Eidal a'r Almaen – dros fil ohonynt yno dros adeg y rhyfel a chael gwaith ar ffermydd lleol. Yna, sut aethant ati i greu yr eglwys hynafol yma allan o un o'r cabanau. Uwch ben mynediad i'r eglwys roedd geiriau trawiadol mewn Eidaleg. Ystyr y geiriau oedd 'DymaTy Dduw a'r fynedfa i'r nefoedd'.

Roedd yn agoriad llygaid a chawsom ein syfrdanu wrth fynd i mewn a gweld yr addurnwaith trawiadol annisgwyl a'r murlun bendigedig o'r 'Swper Olaf' uwchben yr Allor mewn lliwiau hardd wedi ei greu gan Mario Ferlito – un o'r carcharorion allan o lysiau

Cwmann

a te a ffrwyth a'r lliwiau yn dal yn eglur. Roedd yr arlunydd wedi creu murluniau ar hyd yr eglwys o Geriwbaid, Y Tad a'r Mab, Y Crist Croeshoeliedig, Y Ddraenen Heddych, y Tabernacl a Chwpan y Cymun.

Ni roddwyd unrhyw gymorth i'r arlunydd na'r carcharorion, dim offer, na phaent, dim coed, dim concrit, dim byd ond ffydd ac ewylllys. Rhaid oedd iddynt ddod o hyd i ddefnydd crai a sbwriel a defnyddio bagiau sment i greu y nenfwd – gwneud yr allor o focsys pren, anrhegion y Groes Goch a defnyddiwyd tuniau 'Bully Beef' a Jam i wneud canwyllbrennau. Y cyfan mor unigryw. Roedd y profiad yn wefreiddiol a Mr Jones yn ein tywys ni trwy yr hanes i gyd yn ei ffordd hamddenol, diddorol a gwybodus iawn yn llawn hiwmor ac ambell i stori drist am rai digwyddiadau yn Henllan. Daeth tua phymtheg o'r carcharorion nôl yn 1977 trwy wahoddiad plant Ysgol Y Ferwig a buont yn ymweld â'r Eglwys fach, roeddent i gyd dan deimlad wrth i'r atgofion lifo nôl a chynhaliwyd gwasanaeth o'r cymun bendigaid yno.

Trwy eu dagrau dywedodd yr arlunydd Mario Ferlito "Rwy'n gweld dyddiau fy ieuenctid yn amagor ac yn ail ymddangos fel dail llyfr trwy liwiau enfys niwl fy nagrau".

Mae yn wyrthiol fod yr eglwys fach yma ar ei thraed o hyd wrth feddwl am effaith gwynt a glaw ar hyd y blynyddoedd. Mae'r diolch i Mr Thompson a brynnod y safle ac adfer yr eglwys ac mae'n parhau i'w gwarchod – teimlai fod yr adeilad wedi bod yn noddfa i gannoedd o Eidalwyr yn ystod eu carchariad ac yn werth gofalu amdani. Diolchodd y ficer yn gynnes iawn i Mr John Meirion Jones a Mr Thompson am eu croeso a'i diddordeb brwdfrydig yn cadw yr hanes i gyd yn fyw ac am eu parodrwydd i'w drosglwyddo i ymwelwyr cyson.

Aethom ymlaen i Gastell Newydd Emlyn lle bu cymdeithasu hyfryd wrth i bawb ymuno yng Ngwesty'r Emlyn i fwynhau cinio blasus iawn

cyn mynd ymlaen i ymweld ag Eglwys hynafol y plwyf Manordeifi. Cawsom hanes yr eglwys gan ein ficer a chyfle i edrych o amgylch a gweld er syndod – seddau unigryw a llefydd tân ynddynt wedi eu creu i barchu gofynion rhai aelodau.

Roedd Cwrwgl yng nghefn yr eglwys lle mae yn debyg y rhoddwyd y llyfrau Gweddi a'r Beiblau i'w diogeli rhag y llifoedd o'r Afon Teifi pan lithrai yr afon i fewn i'r Eglwys.

Daeth y pererindod i ben yn bwrpasol iawn yn yr Eglwys gyda gwasanaeth o ddarlenniadau a gweddiâu wedi eu paratoi gan ein Ficer.

Diolchodd y Ficer i Graham Evans a Rosa Lloyd am drefnu pererindod mor hanesyddol a diddorol ac eiliodd Danny Davies y cyfan a diolch i'r Ficer am drefnu gwasanaeth ac adrodd am hanes yr Eglwys.

Pêl droed merched Canolbarth Cymru

Llongyfarchiadau i Gwenllian Llwyd Jones, Croesor a Beca Mai Roberts, Pengelli ar gael eu dewis yn rhan o garfan datblygu pêl droed merched Canolbarth Cymru. Bydd Beca yn chwarae i dîm dan 14 a Gwenllian dan 10 a bydd y ddwy yn dechrau ymarfer ym mis Medi yn Synod Inn. Dymuniadau gorau iddynt!

Rhedeg

Bydd Gethin a Sian, Croesor, yn rhedeg y "Great North Run" yn Newcastle upon Tyne Dydd Sul Medi 13eg, gyda thîm Y Motor Neurone Disease Association er côf am eu hewythr Raymond Roberts. Dechreuodd y ddau godi arian tuag at yr elusen hon yn 2009 pan redodd y ddau eu ras cyntaf sef hanner marathon Caerdydd, ac erbyn hyn mae'r gronfa goffa sydd ganddynt gydag help bobl lleol wedi codi tua £10,000. Y bwriad yw codi mwy o arian a chodi ymwybyddiaeth yr un pryd ac os hoffai rhywun noddi'r ddau gallwch ymweld â www.justgiving.com/Sian-Roberts-Jones/ neu gallwch gyfrannu drwy law y ddau.



Gwobrwyo

Ar ddydd Gwener 3ydd o Orffennaf, mynychodd Beca Mai Roberts seremoni wobrwyo Cyngor Chwaraeon Ceredigion yng nghastell Aberteifi, lle derbyniodd wobwr i 'Blant Iau Talentog' am ei llwyddiant mewn rhedeg trawsgwlad ac athletau yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau i ti Beca.

Pêl-droediwr o fri



Yn y llun, Llŷr Jones yn ennill gwobr Chwaraewr Gorau dan 8 yn Nhwrnament Pêl-droed a gynhaliwyd yn Bow Street ger Aberystwyth yn ddiweddar. Diolch yn fawr i Dylan Davies am ei holl waith caled a'r amser i hyfforddi Tîm Bechgyn Llambled dan 8 oed.

Cellan

Dyweddio

Yn ystod diwrnodau cyntaf mis Awst fe glywsom am ddyweddiad Lowri Daniel, Llys Barcud gyda Gwyn Loader o Gaerdydd.

Hefyd, tra ar eu gwyliau yng nghanol y mis fe wnaeth Llŷr Thomas, Llain-deg ddyweddio â Rhian Owen.

Ein dymuniadau gorau i chwi eich pedwar i'r dyfodol.

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Andrew ac Amlyn Williams sydd wedi symud i'w cartref newydd yn Ffosgoy.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel-yr-Erw, nos Fawrth 13eg o Hydref am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan Gwyn Elfyn Jones o Bontyberem. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Gwel y Waun, gynt o Lanlas Fawr yn dilyn marwolaeth Norman a Mary Carter yn ddiweddar – yn dad, dadcu a hen dadcu, ac yn fam, famgu a hen famgu annwyl iawn.

Penblwydd Arbennig

Mi ddathlodd Mrs Francis Jones, Maesyderi ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau a llongyfarchiadau i chi a phob dymuniad da.

Llongyfarchiadau

Yng nghyfarfod blynyddol Cantref a gafodd ei gynnal yn y Castell yn Aberteifi, mi gafodd Andrew Jones, Caerau ei wobrwyo fel Contractwr y Flwyddyn. Pob blwyddyn mae Cantref yn adnabod yr ymdrechion mae contractwyr yn ei wneud i sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneud efo gran a bod ei tenantiaid yn hapus, a mae'r wobwr yn cael ei roi i'r contractwr sydd yn cyrraedd y brig. Eleni mi gafodd Andrew ei enwebu yn dilyn yr ymatebion wrth y cwsmeriad, sef y tenantiaid, a oedd yn gadarnhaol bob amser.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddianus yn eu arholiadau Lefel A a TGAU a phob lwc i chi yn y dyfodol.

Pont Goy

Mi fydd y bont dros Nant Goy yng nghanol y pentref ar gau o'r 7fed o Fedi tan yr 2il o Hydref er mwyn cynnal gwaith o adnewyddu y cylfat i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Swydd newydd

Pob lwc i Lowri Daniel, Llys Barcud a fydd yn dechrau fel Athrawes Ffrangeg ar ddechrau mis Medi yn Ne Cymru.

Ysgol Bro Pedr



Mae swyddogion y chweched o Ysgol Bro Pedr, Llambled wedi codi arian dros y tymor olaf wrth gynnal nifer o weithgareddau gan roi cyfanswm i elusen "Amser Justin Time". Mae Catheryn Morgan yn derbyn y siec ar ran yr elusen ynghyd â Mrs Edwina Rees, Athrawes.

Llanwnnen



Aeth gwobr arbennig yn Adran y Blodau yn Sioe Llambled i Erika Davies, Capel y Groes.

Diolch

Dymuna Edward, Sylvia a'r teulu, Plas-y-Creuddyn, gynt o Lanwnnen, ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt adeg eu galar o golli Julie, eu merch annwyl. Diolch am y pentwr cardiau a'r holl roddion ar yr aelwyd. Gwerthfawrogir pob gair o weithred yn fawr iawn.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Dan Jones, Garej Central sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae erbyn hyn yng Nghartref Alltymynydd a gobeithio eich bod ar wellhad.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Barry ac Elinor, Abergrannell ar enedigaeth merch fach arall, Ffion Haf chwaer fach i Catrin a Nia ac wyres fach arall i Heulyn a Jenny, Pantderi ac Eluned Hopkins, Tirglyn. Dymuniadau gorau i chi gyd.

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Liz a Clive Mills yn eu cartref newydd yn Maes y Dderwen.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Kate Jones, Brynheulog ar basio ei phrawf gyrru yn ystod yr haf.

Dathlu

Yn ystod mis Awst dathlodd Emma Newton-Jones, Esgair Inglis

ei phen-blwydd yn 18 oed ac hefyd Elinor Hopkins, Abergrannell ei phen-blwydd yn 30 oed.

Bydd Luned Blaenwaun-ganol yn dathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed yn ystod mis Medi. Mwynha'r dathlu a phob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau mawr i John ac Avril Jones, Troed-y-Bryn ar ddathlu eu Priodas Aur ar Awst 7fed. Dymuniadau da i chi am flynyddoedd eto.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Nia Beca Jones, Blaen Hedd, Blaen Cwrt am basio Gradd 4 ar y piano gyda chlod o dan nawdd y 'Royal College of Music.'

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Clive a Helen Roberts, Bro Llan ar ddod yn ddatcu a mamgu am y tro cyntaf, mab bach, Tomos Edwin i Bethan a'i gŵr Sam. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Prif Ferch

Llongyfarchiadau i Luned Medi Jones, Blaenwaun-ganol ar gael ei dewis yn Brif Ferch Ysgol Bro Pedr, Llanbed, am y flwyddyn academiaidd hon. Bydd eleni'n gyfnod i 'Gadw lan gyda'r Jonesiaid' gan mai Gareth Jones a ddewisiwyd yn Brif Fachgen. Pob hwyl i'r ddau gyda'u dyletswyddau yn ystod y flwyddyn.

Graddio

Llongyfarchiadau i Megan Haf Morgans, Abergwili, wyres Mary a Gareth Davies, Rhosycoed, Llanwnnen a Gwyneth Morgans, Pensarnau, Blaencwrt ar ennill Gradd Dosbarth 1af yn y Gymraeg o Brifysgol Caerdydd. Dymuniadau gorau iddi wrth ddilyn cwrs M.A. yn y Gymraeg ym mis Medi.

Cydymdeimlo

Ar ddiwedd y mis clywyd y newyddion trist am farwolaeth Maldive Davies, Saron, Bro Grannell. Cydymdeimlwn â'r cysylltiadau teuluol yn i gyd.



Heffer 13 mis oed "Miss Wales" o eiddo Dai Thomas, Llanwnnen oedd enillydd yn Adran y Biff yn Sioe Llambled.

Llanybydder

Ysgol Sul Eglwys Llanybydder

Cafwyd amser gret gan bawb yng Ngwesty'r Llew Du, prynhawn Dydd Sul 23ain Awst, wrth i ferched yr Ysgol Sul joio eu parti Haf.

Sbort oedd ar agenda'r p'nawn, gyda amrywiaeth o gemau, llongwyl o fwyd a chwis gan y cwis feistr ei hun, Steve!

Roedd lot o grafu pen wrth i Steve holi cwestiynau am bopeth! Da iawn i dîm Dyfan am ennill y cwis.

Diolch i bawb am ddod â bwyd, gwobrau raffl, gwobr i'r cwis/gemau, ac i bawb am ddod i fwynhau gyda ni.

Rhaid yw diolch i bawb yng Ngwesty'r Llew Du am adael i ni gynnal y parti gyda nhw.

Edrychwn 'mlaen nawr i barti Dolig yr Ysgol Sul!

Sioe Llanybydder

Cynhaliwyd Sioe Llanybydder yng Ngwesty'r Llew Du, ar Ddydd Sadwrn 22ain Awst, gan Bwyllgor ariannu gweithgareddau allanol Llanybydder.

Braf oedd gweld y lle yn llawn cystadleuwyr yn gynnar yn y bore, ar swyddogion yn cael gwres eu traed yn rhoi popeth yn eu lle!

Roedd dros 80 o gystadleuwyr wedi cystadlu mewn amrywiaeth o adranau, o'r adran flodau i'r adran coginio.

Ar ôl rhoi'r gwobrau allan i'r enillwyr, cafwyd araith bwrpasol gan Pamela Burke, Cadeiryddes y Pwyllgor, cyn i'r Cynghorydd Ieuan Davies werthu'r nwyddau a adwyd ar ôl gan y cystadleuwyr.

Pwyllgor bach sydd yn rhedeg y Sioe erbyn hyn, ac er mwyn cynnal Sioe lwyddiannus o flwyddyn i flwyddyn, mae llawer o waith yn digwydd ganddynt, felly, maent yn

galw ar bobl yr ardal i ymuno gyda nhw ar y pwyllgor er mwyn gallu cadw i gynnal digwyddiad hynod o bwysig.

Adran y Plant: 6 oed a thano: Lois Williams, Heol y Gaer

7 oed a than 11: Dafydd Williams, Heol y Gaer. Adran Flodau: Glyn Davies, Ffynnonbedr, Llambled

Dyma canlyniadau'r dydd:

Adran Cyffeithiau/Coginio:

Elaenor Jones. **Adran Gwaith Llaw:**

Maralyn Lambert. **Adran gwaith**

coed: Huw Evans. Adran arlunio:

Sheila Smith. **Adran y Plant: 6**

oed a thano: Lois Williams, Heol

y Gaer. **7 oed a than 11:** Dafydd

Williams, Heol y gaer.



Adran Flodau: Glyn Davies,

Ffynnonbedr, Llambled. **Adran**

Ffotograffiaeth: Zoe Nugent.

Adran ffrwythau: Bethan

McMullen. **Adran llysiau:** Bethan

McMullen. **Gwobr am y mwya**

o bwyntiau yn y Sioe: Bethan

McMullen. **Gwobr arbennig am yr**

eitem orau yn y Sioe: Bertie Davies

am ei gennin godidog!!

Hanging basket orau: Mr Eirwyn

Jones, The Willows. 2ail Mr a Mrs

Jones, Fronhaul. 3ydd Mr a Mrs

Gibby, Erwlon.



Llongyfarchiadau

Ian a Katharyn Callan, Cwm Aur a dderbyniodd cerdyn i'w llongyfarch oddi wrth y Frenhines ar ddathlu 73 mlynedd o fywyd priodasol. Mae Ian yn 98 mlwydd oed a Katharyn yn 94. Priododd y ddau ar Awst 11eg 1942.

Gŵyl Golwg yn Llanbed eto

Bydd Gŵyl Golwg yn cael ei chynnal unwaith eto eleni, gan ddod ag amrywiaeth o weithgareddau i Lanbedr Pont Steffan rhwng 10 a 12 Medi.

Cynhaliwyd yr ŵyl gelfyddydol yn wreiddiol ym Medi 2013 i nodi chwarter canrif ers dechrau cyhoeddi cylchgrawn Golwg, ac fe'i cynhaliwyd eto ar gampws y brifysgol yn y dref llynedd.

Eleni, mae'r ŵyl yn cynnig rhywbeth ychydig yn wahanol, gyda gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol yn y dref ei hun. **Uchafbwyntiau** - Un o uchafbwyntiau'r ŵyl ydy Darlith Goffa Islwyn Ffowc Elis, a sefydlwyd gyntaf yn 2013. Eleni, Emyr Llewelyn fydd yn traddodi'r ddarlith yn Ffestri Brondeifi ar nos Iau 10 Medi, gan drafod gwaith ei dad, T. Llew Jones. Mae'r testun yn briodol iawn a hithau'n gan mlynedd ers geni un o lenorion mwyaf Cymru.

Ar nos Wener 11 Medi, bydd y comedïwr o Lanbed, Gary Slaymaker, yn dod â sioe stand-yp newydd 'Siwgr Lwmp' i Glwb Rygbi Llanbed. Mae'r comedïwr poblogaidd yn dioddef o Glefed y Siwgr ers rhai blynedd, a bydd elw'r noson yn mynd at elusen Diabetes Cymru.

Diwrnod o hwyl a sbri i'r plant ydy dydd Sadwrn 12 Medi, gyda nifer o gymeriadau amlwg yn ymuno a seren cylchgrawn plant Wcw a'i Ffrindiau yn Neuadd Ysgol Bro Pedr. Ymysg y gweithgareddau bydd gweithdai, perfformiadau ac adrodd straeon gyda Sali Mali, Alun yr Arth, cymeriadau cyfres Wenfro a mwy. Mae cyfres o rasys hwyl i blant hefyd yn cael eu trefnu mewn cydweithrediad â Chanolfan Hamdden Llanbed.

Arbrofi - "Wedi dwy flynedd o gynnal yr ŵyl ar raddfa fawr ar gampws y brifysgol, roedden ni'n teimlo y byddai'n braf gwneud pethau ychydig yn wahanol eleni" meddai trefnydd Gŵyl Golwg, Owain Schiavone.

"Rydani ni wedi dewis rhai o elfennau mwyaf poblogaidd yr ŵyl, a mynd â nhw i leoliadau amrywiol yng nghalon tref Llanbed gan obeithio y bydd hynny'n rhoi mwy o hwb i'r dref ei hun." "Mae'n ŵyl ifanc, ac yn hynny o beth mae arbrofi gyda gwahanol bethau'n bwysig. Rydani ni'n teimlo'n gryf mae gŵyl Llanbed ydy hi, ac am gryfhau'r berthynas â'r gymuned a busnesau lleol."

Mae manylion llawn yr ŵyl ar y wefan www.gwylgolwg.com neu dilynwch y cyfrif Trydar @gwylgolwg, neu hoffi'r digwyddiad Facebook am y newyddion diweddaraf.

Cynghrair Llanwenog

Trefnwyd taith gerdded hanesyddol 'Adnabod eich ardal' gan bwyllgor Cynghrair Ward Llanwenog ar ddydd Sul Mehefin 28ain. Dechreuwyd y daith yn Wempa sef y mynediad gwreiddiol i Ysgol y Dolau a cherdded heibio i hen seiliau concrit yr hytiau a adeiladwyd i Americanwyr gael sefyll ynddynt adeg yr Ail Ryfel Byd cyn cyrraedd blaen Ysgol y Dolau lle bu'r cerddwyr yn edmygu ysblander yr hen blas tu fewn a thu allan. Yna cerddwyd ar dir fferm Hendy i weld lle arferai pobl groesi yr afon Teifi mewn casgenni pren i gyrraedd sir Gaerfyrddin ac ymlaen ar lan yr afon i bentref Rhuddlan. Arferai Rhuddlan fod yn bentref prysur a llewyrchus gyda gofaint, tanerdy, melin goed, lle i sychu llafur a thafarn yno. Nesaf aethom ar yr heol i Grug y Whil a cherdded i fyny bryncyn lle bu archaeolegwyr yn chwilio am olion llys Pryderi o'r Mabinogi. Oddi yno gwelsom fryn arall, eto ar dir Crug y Whil, lle darganfuwyd carreg fawr ogamaidd o'r 5ed-6ed ganrif ac sydd heddiw yn Amgueddfa Sain Ffagan a chopi ohoni wrth fynedfa mynwent eglwys Llanwenog. Gorffennwyd y daith ym mhentref Brynteg lle cafwyd ychydig o hanes y capel ac yna lluniaeth yn Y Gweithdy. Mwynhaodd pob un y daith blesurus a diolch i bawb a rannodd eu gwybodaeth am hanes yr ardal gyda gweddill y cerddwyr.

**LYN JONES**
"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

**01570 481029**
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Taith y Bedyddwyr

Ddydd Sul, 26 Gorffennaf, aeth llond bws bach o eglwysi Bedyddwyr gogledd Teifi ar daith – aelodau o Noddfa (Llanbedr Pont Steffan), Bethel (Silian), Caersalem (Parcyrhos), Aberduar (Llanybydder), Seion (Cwrtnewydd) a Brynhafod (Gorsgoch).

Jill Tomos, ein gweinidog, a wnaeth y rhelyw o'r trefniadau, a thrysorydd y cylch, Dewi Davies, Aberduar, oedd yn gyfrifol am y swper ar ddiwedd y daith. Diolch i'r ddau am eu gwaith, fel arfer.

Aethom o Lanbed am Reilffordd y Gwili. Dyma atyniad trên stêm yn Bronwydd Arms, ac i nifer o'r aelodau, roedd hyn fel cam yn ôl mewn amser. Mae Rob Phillips, aelod yn Noddfa Llamed, yn wirfoddolwr ac yn un o gyfarwyddwyr Rheilffordd y Gwili, a chawsom sgwrs fer ganddo am hanes y Gwili. Os oedd y trên stêm yn dipyn o 'hit', roedd y trên bach hyd yn oed yn fwy o demtasiwn i rai o'r aelodau – ac nid plant yn unig a aeth arni!

O'r Gwili, aethom trwy gefn gwlad sir Gaerfyrddin i'r Gangell ger Blaen-y-coed. Dyma fan geni'r emynydd a'r bardd-bregethwr Elfed. Yno i'n cyfarfod roedd Elsbeth Page, gwraig ddiwylliedig sydd wedi'i thrwytho yn hanes Elfed ac yn ei hanes lleol. Diolch iddi am gyflwyno i ni beth o hanes Elfed ac am y cyfle i ni grwydro'r bwthyn un-llawr. Oddi yno, fe gawsom ni ein tywys i gapel Blaen-y-coed, a chael rhagor o hanes Elfed gan Elsbeth. Yno hefyd cawsom fyfyrddod byr gan Jill, a chyfraniadau gan ein haelodau.

Doedd y tywydd ddim yn garedig, ond yn rhagluniaethol, roedd hi'n sych pan aeth y bws â ni i Genarth am saib bach cyn swper, ac roedd hi'n braf cael crwydro'r pentref a gweld y rhaeadrau. Ac yn naturiol, roedden ni'n edrych mlaen am swper ymhen dim, a chawsom ein digoni yn nhafarn Ffostrasol.



ysbrydoli

Gŵyl Celfyddydau Creadigol

Yn dangos detholiad o'r crefftau a chelfyddydau gorau sydd gan Ceredigion i'w cynnig. Gyda rhaglen lawn o weithdai, yn cynnwys rhwymo llyfrau, mynorliwio, gwneud gemwaith a phaentio. Am fanylion pellach, cymerwch gipolwg ar y wefan.

I'ch ysbrydoli!

8 - 14 Medi 2015

Y Talbot, Tregaron, SY25 6JL

Ar agor yn ddyddiol 10-6. Am ddim.

 www.facebook.com/inspirefestivalwales
www.inspirecreativeartsfestival.yolasite.com



Cofrestrwch ar wefan gymunedol newydd
www.clonc360.cymru
er mwyn cyfrannu eich stori chi.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHOU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin
- Scleruca

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gogolofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.

Ac yn golchi duvets.



MiS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Awn ar y trêr bach

Mae'n debyg fod un o'r ymgeiswyr am arweinyddiaeth y Blaid Lafur wedi sôn am ardal Clonc ... wel, bron iawn.

Pan oedd ar ei drip i Gymru, mi soniodd Jeremy Corbyn – ymgeisydd sioc yr holl ornest – am y posibilrwydd o ailagor y lein reilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. A chanol honno, wrth gwrs, oedd Llanbed.

Nawr, mae'n rhaid cofio bod ymgeiswyr mewn etholiad yn debyg o ddweud pethau sy'n siwtio'r gynulleidfa ar y pryd – hyd yn oed rhai mor egwyddorol â Jeremy Corbyn – ac felly na allwn ni ddim trin y geiriau fel efengyl.

Wedi'r cyfan, mi soniodd AS Gogledd Islington hefyd am ailagor y pyllau glo, cyn sylweddoli efallai nad oedd hynny'n syniad da iawn ac nad oedd pawb o bobol Cymru'n hiraethu am y fath beth.

Ond, wrth gwrs, roedd sôn am hen reilffordd y Gorllewin yn ffitio i syniadau eraill Jeremy Corbyn, fod eisio buddsoddi mewn pethau gwerth chweil er mwyn ein tynnu ni allan o'r twll economaidd presennol.

Mae sawl economegydd wedi dweud rhywbeth tebyg – nid gadael dyled i genedlaethau'r dyfodol sy'n eu poeni nhw, ond peidio â gwario'n awr er mwyn eu helpu fory.

Dim ond trwy fuddsoddi – a llawer o hwnnw'n fuddsoddi cyhoeddus – y llwyddwn ni i droi'r rhod mewn ardaloedd fel hyn ac mi allai ailagor y lein fod yn gyfraniad pwysig.

Un o broblemau Cymru heddiw ydi fod ein systemau trafndiaeth ni'n mynd ar draws yn hytrach nag i fyny ac i lawr. Y theori oedd fod gwella ffyrdd fel yr M4 yn help i ddod â gwaith i mewn. Y peryg ydi ei fod yn cael effaith fel arall.

Bellach, mae'n llawer haws i fusnesau o ganolbarth Lloegr neu hyd yn oed Lundain wasanaethu'r ardaloedd yma heb drafferthu i gael canolfan leol. Ac, fel y dangosodd y diwydiant llaeth, mae'n llawer haws hefyd i fynd â chynnyrch crai oddi yma a gwneud yr elw yn rhywle arall.

Pe bai'r ffyrdd a'r rheilffyrdd i fyny ac i lawr yn well, mi fyddai mwy o fasnach yn digwydd rhwng gwahanol rannau o Gymru. Ac, unwaith eto, mi fyddai'r rhan yma o'r byd yn sydyn yn reit ganolog.

Flynnyddoedd yn ôl, pan o'n i'n gohebu ar bethau o'r fath, mae gen i gof fod yr arbenigwr trafndiaeth, Stuart Cole o Lanelli, wedi awgrymu system ffigwr 8 ar gyfer holl system ffyrdd a rheilffyrdd Cymru.

Mi fyddai dau brif lwybr yn croesi i gilydd yng nghanolbarth Cymru, un yn mynd o Gaerdydd i Gaerdybi, dywedwch, a'r llall o rywle fel Wrecsam neu Gei Conna i Gaerfyrddin neu Sir Benfro.

Os cofia i'n iawn, mi fydden ni wedyn ar ran gwaelod yr wyth ar yr ochr chwith ac mi allai

Mae yna siawns y byddai lein yn boblogaidd, os bydd y gwasanaeth yn ddigon cyson a sownd. Fyddai dau neu dri thrên bob dydd ddim yn ddigon ac mi fyddai'n rhaid eu hamseru i gyd-daro ag anghenion pobol.

Mi ddylai'r gwasanaethau fod yn gynt na'r bysys ac mi fyddai cyrraedd canol Aberystwyth heb orfod chwilio am le parcio yn ddigon i wneud iawn am golli'r preifatrwydd yna yr yden ni i gyd mor hoff ohono yn ein ceir.

Fyddai hi ddim mor hawdd pigo trwyn neu siarad gyda chi eich hunan ond, fel arall, mae'n syniad da ac mi allai wneud cyfraniad hefyd at leihau traffig a damweiniau ac arbed adnoddau'r ddaear.

Ond yr egwyddor ehangach sy'n bwysig. Mae angen buddsoddi er mwyn cynnig dyfodol i ardaloedd fel hyn, i greu'r math o ddewis o swyddi a chyfleoedd hamdden fydd yn cadw pobol yma neu'n rhoi'r cyfle iddyn nhw ddod yn ôl.

Dyna, yn y pen draw, fydd y ffordd i sicrhau bod ein cymunedau ni a'r iaith yn aros yn gry' – os nad oes yna le gwag, fydd dim byd yn dod i'w lenwi.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weinï cysurus
Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau
- Bwyd Bedydd
- Cyfarfodydd
- Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*



Lift
cyfleus
yn ei le i
fynd lan
llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Pentrebach



Enillwyd y Cwpan yn yr Adran
Grefftau yn Sioe Llambled gan
Andrew Jones, Cwmgywyn, Pentrebach.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Mrs Mary Davies,
Awel Teifi yn well erbyn hyn wedi
iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn
ddiweddar.

Noson yng nghwmni

“Bois ar Wasgar”

ac aelodau

C.Ff.I. Llanllwni

yn y Llew Du Llanybydder
ar **Nos Wener, Medi 25ain**
am 8.00y.h.

Elw tuag at gangen
Llanybydder
o Gymdeithas
Diabetes Cymru.



Osian Potter
Toio a Gwaith Saer

Adeiladau Newydd · Ail-doi
Ffasgiau, Soffitau a Chafnau
Gwaith Simnai · Gwaith Plwm
Saer Coed

07816 869 047 · 01570 471 749
osianp@btinternet.com

Cymwys, 14 Blynedd o Brofiad, Geirda ar Gael

Sefydliad
Prydeinig y Galon

yn cynnal

Noson Bingo

yng Nghlwb Rygbi Llanybydder

Nos Fawrth,
27 Hydref 2015

Croeso cynnes i bawb

Llangybi a Betws



“Y Moroedd Mawr” – gwobr gyntaf i CFFI Bro Dderi yn y Sioe Frenhinol.

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau mawr i Sioned Evans, 5 Godre'r Coed, Olmarch, ar basio arholiad piano gradd 4 yn ddiweddar. Hyfforddir Sioned gan Mrs Alwena Williams, Abermeurig.

Llongyfarchiadau hefyd i Chloe Jones, Morfa am basio Gradd 1 ar y piano gyda chlod o dan nawdd y 'London College of Music'. Gwnaeth Chloe gael marciau llawn yn y theori a'r profion clust. Da iawn ti.

Diolch

Hoffai Lesley, Liam a Cara, Tŷ Capel, Llwyn-y-groes ddiolch i bawb sydd wedi prynu raffl a mwynhau'r Twmpath Dawns ar gyfer Andre. Hoffent ddiolch i bawb sydd wedi eu cefnogi dros y deunaw mis diwethaf.

Cydymdeimlo

Taenwyd lawer o donnau o dristwch a hiraeth dros yr ardal yn ystod y misoedd olaf. Cydymdeimlir â phob teulu a fu mewn profedigaeth a galar ac â holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau yr ymadawedig.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i bawb fu yn llwyddiannus yn eu harholiadau yn ystod mis Awst ac hefyd mewn profion gyrru.

Cyrddau Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon ar Fedi 16eg am 2.00y.p. Pregethwr gwadd fydd y Parch Carwyn Arthur B.S.C., B.D. o Dregaron. Croeso cynnes i bawb.

Ar brynhawn Sul, Medi 27ain cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Ebenezer am 2.00y.p. Y gennad fydd y Canon Aled Williams. Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr Y Dderi

Fe fydd rhai o'r aelodau yn mynychu Cyngerdd y Mudiad yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant, Llambled ar nos Sadwrn, Medi 5ed am 8.00y.h.

Ar Fedi 17eg ymwelir ag Amgueddfa Llambled am 2.00y.p. Croeso i aelodau newydd i ymuno yn yr ymweliad hwn.

Hamdden

Fe fydd y gymdeithas yn ail-ymuno ar Hydref 2il yn Ysgol Y Dderi am 2.00y.p. Fe fydd Mr Barry Williams wedi paratoi Cwis ar ein cyfer. Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno. Dewch am baned a sgwrs.

Adferiad

Dymuniadau gorau am adferiad buan a llwyr i bawb sydd wedi bod yn sâl ac wedi cael anffawd neu driniaeth feddygol yn ddiweddar.



Yn adran y Gwartheg yn Sioe Llambled aeth y Prif Bencampwr i Darw Du Cymreig o eiddo Eirian Lewis, Llangybi a'i brawd Ian o Lanwenog. Cyflwynwyd y Cwpan Arian iddynt gan Lywydd y Sioe Mr Graham Bowen, Llanwnnen.

Arddangos

Llongyfarchiadau i Mr David Thomas, Maesfforest ar ei lwyddiant yn Sioe Llambled. Cafodd chwech gwobr yn yr Adran Amaethyddiaeth.

18 oed

Llongyfarchiadau i Bradley Lewis, Llety Gwyn ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Diolch yn fawr i bawb â ymunodd â Chlwb Clonc eleni eto. Rydym wedi cael ymateb gwych ac erbyn hyn wedi cyrraedd

524

o aelodau. Cofiwch, nid yw yn rhy hwyr os nad ydych wedi talu.

Clwb Clonc

Medi 2015

£25 rhif 191 :

Mrs Aerwen Griffiths, Pengarn, Llanfair Clydogau.

£20 rhif 215 :

Mrs Elaine Davies, Pen-y-nant, Llanwnnen.

£15 rhif 209 :

Llion Herbert, 4 Cysgod y Coed, Cwmann.

£10 rhif 459 :

Mrs Anne Thomas, Milford, Cwrtnewydd.

£10 rhif 246 :

Geinor Medi Jones, Bryndolau, Cwmann.

£10 rhif 334 :

E. Anne Jones, 18 Ty Rhys, The Parade, Caerfyrddin.

£5 rhif 102 :

Mrs Glenys Davies, Gelli Aur, Rhydybont, Llanybydder.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	2		3	5			
			6	4		1	3
	6						5
			4		5		
3	9			6		7	2
		6		2			
2							8
8	1		2	7			
			8	4		2	

Atebion Swdocw mis Gorffennaf:

Llongyfarchiadau i: Gwendoline Jones, Prospect House, Llanybydder, ac i bawb arall am gystadlu: Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Mary Jones, Stryd Fawr, Llanbed; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder ac Avril Williams, Y Fedw, Cwmann.

3	9	5	2	4	7	8	1	6
2	6	7	1	8	5	9	4	3
4	1	8	3	6	9	2	7	5
8	3	1	4	5	2	7	6	9
6	5	2	7	9	8	4	3	1
9	7	4	6	3	1	5	8	2
7	4	3	5	2	6	1	9	8
5	8	6	9	1	4	3	2	7
1	2	9	8	7	3	6	5	4

Llanybydder



Yn ystod yr haf, cynhaliwyd barbeciw yng Nghwm Aur, Llanybydder, lle codwyd £924.84 i'r elusen Ymchwil Cancr. Yn y llun mae Mrs Beverley Pold, Llywydd y dydd, ynghyd â'r Cyng. Ieuan Davies. Hefyd yn bresennol oedd Nicola Higgs o Gwmann oedd yn dechrau ar ei champwaith o redeg 30 ras rhwng Mehefin 2015 a Mehefin 2016.

Eglwys San Pedr

Cyfarfod o Bwyllgor Cyngor yr Eglwys Plwyfol [PCC]

Cynhaliwyd y Cyfarfod ar Nos Lun 20fed o Orffennaf 2015. Yn bresennol:

Parch. Suzy Bale (Cadeirydd); Avril Jones; Susan Evans, Heather Jones; Eurwyn Davies; Val Wood & Eleri Thomas.

Ymysg y materion a drafodwyd oedd y canlynol;

Gwasanaeth y Cynhaeaf - Cynhelir ar Nos Fercher 30ain o Fedi am 7pm. Siaradwr Gwadd: Caplan Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Cinio'r Cynhaeaf; i ddilyn yn syth ar ôl y Gwasanaeth yn ngwesty'r Llew Du, Llanybydder.

Noson Bingo - Gobeithir trefnu'r digwyddiad ar gyfer dechrau'r flwyddyn nesaf.

Blodau - Diolchwyd i Mrs Diana Harper, Mountain Breeze, Ty Mawr, Llanybydder am ymwneud â'r arddangosiadau blodau o fewn yr Eglwys dros ystod eang o flynyddoedd.

Taith Gerdded - Cynhaliwyd ar Nos Wener 14eg o Awst a'r daith tua dwy filltir o hyd dros Fynydd Pencarreg. Diolchir i bawb a gymerodd rhan gan gynnwys disgyblion yr Ysgol Sul sef Elaine ac Ellie. Hefyd diolch i bawb sydd wedi noddi'r achlysur. Llwyddodd Heather (Jones) i gasglu dros £1,000 a gobeithir derbyn nawdd dan law Banc Barclays o £750.

Boed i'r cerddwyr fwynhau pryd blasus yn Ngwesty'r Llew Du, Llanybydder ar ôl y daith.

Gwasanaeth y Gair - Susan Evans oedd wrth y llyw yn ystod mis Gorffennaf a'r thema sef "Maddeuant",

Yna daeth Pedr a gofyn iddo, "Arglwydd, pa sawl gwaith y mae fy mrawd i bechu yn fy erbyn a minnau i faddau iddo? Ai hyd seithwaith?" Meddai Iesu wrtho, "Nid hyd

seithwaith a ddywedaf wrthyf, ond hyd saith deg seithwaith" (70x7)

Matthew 18: 21-22

Os rydym i gydweithio'n effeithiol ag eraill a chymryd agwedd positif mewn bywyd rhaid i ni faddau'n aml. Dim ond diflasu ein hunain a wnawn wrth beidio a maddau a bod yn chwerw.

Val Wood oedd yn gyfrifol am y Gwasanaeth yn ystod Awst. Enw ein Eglwys yw San Pedr ar ôl Pedr sef Simon Pedr, un o brif disgyblion yr Iesu sef Pedr "Y Graig". Dywedodd yr Iesu,

"Ac rwyf fi'n dweud wrthyf mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys". Matthew 16:18.

Dymuniadau gorau - Estynnir dymuniadau gorau i bawb o fewn yr Eglwys sy'n teimlo'n anhwylyd ar hyn o bryd neu sydd wedi colli anwylyd yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Ray Jenkins, Gelli House a'r teulu ar golli ei chwaer – Hettie Evans, Caerwenlli yn ystod yr Haf.

Graddio

Derbyniodd Gareth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder radd BSc Dosbarth Cyntaf mewn Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol o Brifysgol De Cymru.

Llongyfarchiadau calonnog iddo a phob lwc wrth astudio'r cwrs meistr ym Mhrifysgol Caerdydd y flwyddyn nesaf.

18 oed

Ar ddiwedd mis Gorffennaf dathlodd Alan Davies, Pistyll Gwyn ei ben-blwydd yn 18 oed. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau i Ffion Mai Davies, Rhydybont, Llanybydder am lwyddo yn ei harholiad piano gradd

2. Diolch i mamgu, sef Eiry Jones, Maesyllan, Llambled am ei dysgu.

Hefyd, llongyfarchiadau i Alpha Evans, Y Gelli ar basio arholiad piano Gradd 8 gyda theilyngdod. Da iawn ti.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Emma Herbert, Bwthyn y Saer am basio Gradd 1 ar y piano gydag anrhydedd o dan nawdd y 'London College of Music'. Gwnaeth Emma gael marciau llawn yn y theori, yn y gwaith technegol a hefyd marc llawn mewn un darn. Arbennig.

Diolch

Dymuna Eirene Jones, Bryn Cottage ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu o gardiau, blodau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Diolch yn fawr i bawb.

Graddio



Llongyfarchiadau i Daloni Evans, Bryngwyn, Llanybydder ar dderbyn Gradd BA 2:1 gyda Anrhydedd ar gwrw Rheolaeth Busnes ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Da iawn ti a phob lwc i'r dyfodol.

Pen-Llongwr

Llongyfarchiadau i Sian Jenkins, Gerynant, Llanybydder sydd wedi cael ei dyrchafu'n Ben-Llongwr, sy'n golygu ei bod hi bellach yn cael y cyfle i roi gorchmynion i bobl arall!



Ymunodd Sian â'r Llynges yn 2009 ac ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu ar yr HMS Defender, sef Llong Ddistryw math 45, sy'n un o longau rhyfel mwyaf newydd y Llynges. Mae Sian wedi gwasanaethu ar yr HMS Ocean, yr HMS Portland a'r HMS Northumberland ac mae hyn wedi ei galluogi i deithio ac ymweld â nifer o lefydd ar draws y byd. I gofio am y teithiau hyn, mae Sian bob amser yn dod yn ôl â charreg o'r traeth lleol gyda hi i'w rhoi i'w thad, Tydfor Jenkins, sydd hefyd yn gyn-forwr yn y Llynges. Gobaith Tydfor un diwrnod yw y bydd yn medru casglu'r cerrig hyn ei hun, os bydd yn ddigon ffodus i ennill y Loteri!

Nid yw Sian, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Llanwenog ac Ysgol Bro Pedr, wedi anghofio am ei gwreiddiau Cymreig, a phryd bynnag y mae'n gallu, mae'n teithio adref i weld ei theulu a'i ffrindiau, sy'n ymfalchïo'n fawr yn ei llwyddiant. Da iawn ti, Sian, am dy llwyddiant!



Pencampwr y Charollois (Gwryw) yn Sioe Llambled yn cael ei arddangos gan Bronwen Evans, Glantrenfach, Llanybydder.

O'r Cyngorau Bro

CYNGOR CYMUNED LLANYBYDDER

MEHEFIN 2015

LLENWI SEDD WAG AR Y CYNGOR - Croesawyd Dave Doughty i'w gyfarfod cyntaf gan ein Cadeiryddes Sylvia Maskelyne. Pob lwc iddo.

CYNG I DAVIES a PSO ELERI BONNING - Diolchwyd iddynt am eu presenoldeb.

Y GANOLFAN DEULUOL - Cafwyd croeso hyfryd gan Mrs Jane Davies, Cynorthwydd y Ganolfan. Siaradodd am ei chynlluniau am y dyfodol a'r hyn roedd gan y Ganolfan i'w gynnig. Tywyswyd yr aelodau o amgylch yr adeilad hyfryd a chwrdd â rhai o'r staff.

ARWYDDION I BENTREF RHYDCYMERAU - Mae pobl Rhydcymerau, a'r rhai sy'n chwilio am y pentref yn anfodlon bod yr arwyddion heb eu codi gan y Cyngor Sir. Mae'r Clerc yn mynd i'w hatgoffa ar unwaith.

CYFARFOD CYNGOR BRO LLANLLWNI

6 GORFFENNAF 2015

Croesawodd y Cadeirydd aelodau o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, Cylch Meithrin a CFFI Llanllwni ac aelodau'r Cyngor Bro i'r cyfarfod a chroesawyd Dewi Davies yn ôl wedi triniaeth. Llongyfarchwyd Linda Evans ar ei dyrchafiad ar Gyngor Sir Caerfyrddin.

Diolchwyd gan Dewi Davies i bob mudiad am gytuno i gydweithio ac am eu hymroddiad yn ystod yr wythnos i sicrhau y byddai'r diwrnod hwyl yn llwyddiannus. Penderfynwyd yn unfrydol y byddai Dewi Davies ac Owain Davies, Gwndwn, yn beirniadu ar y dydd. Bydd y beirniadu yn dechrau am ddau o'r gloch.

Nododd aelodau o'r Cyngor Bro nad oedd yn dderbyniol i dynnu lluniau o blant ar y diwrnod a'i rhoi ar gyfryngau cymdeithasol heb ganiatâd ymlaen llaw gan rieni'r plant.

PLISMONA: Croesawyd Eleri

Bonning i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar ddiogelwch yn gyffredinol. Yr oedd cwyn wedi dod i'r aelodau am gyflymdra y ceir yn mynd heibio i'r ysgol.

Y CAE CHWARAE: Yr oedd y Clerc wedi derbyn Canllawiau gan gwmni yswiriant AON ac yr oedd y Cadeirydd wedi derbyn copi cyn y cyfarfod gan y Clerc. Yr oedd Eric Davies wedi penderfynu, ar ran y Cyngor Bro, ar fin i'r cae chwarae ac yr oedd yr archeb wedi cael ei anfon. Pe byddai cais am ford bicnic a chadeiriau yn llwyddiannus, penderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Clerc yn archebu'r adnoddau priodol.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies.

AGENDA: Yr oedd y Clerc wedi rhoi poster priodol yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

SBWRIEL: Yr oedd y Clerc wedi derbyn ebost yn cadarnhau bod Cerddwyr y Talardd wedi bod yn casglu sbwriel ar 26 Mai 2015, ac y byddent yn parhau i wneud hynny bob nos Fawrth yn ystod misoedd yr haf. Penderfynwyd gan yr aelodau y byddai'r clerch yn danfon llythyr o ddiolch.

CAIS AM GRANT DAN GYNLLUN LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU:

Penderfynwyd gwneud cais trwy gydweithio ag Ysgol Llanllwni i gael palmant o Cwmawel i Ffynonddrain gan fod angen i ddisgyblion gerdded i'r cae chwarae i fanteisio ar yr adnoddau newydd yno, ac i'r ysgol, ac er mwyn i drigolion Llanllwni gerdded i'r siop yn ddiogel. Dyddiad cau 17 Gorffennaf 2015.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 14 Medi 2015 am 8yh.



Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

Gwasanaeth Lamineiddio

Dyffryn Aeron

Diogelwch eich gwaith
mewn maint A4 i A1

Prisiau rhesymol i
unigolion, ysgolion a
myfyrwyr

Cysylltwch â Roy Davies
ar 07792 627974.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

Gwerthir CLONC yn

..... y siopau canlynol:

Aeron Booksellers, Aberaeron

Awen Teifi, Aberteifi

Compton, Llanybydder

Co-op, Llambed

Cyfoes, Rhydaman

Eryl Jones, Llambed

Garej Central, Llanwnnen

Garej Checkpoint, Harford

Garej LFS Llandeilo

Ffab Cymru, Llandysul

Inc, Aberystwyth

J H Williams a'i Feibion, Llambed

Lomax, Llambed

Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth

Medical Hall, Tregaron

Premier Siop y Gymuned, Llambed

Spar, Llambed

Siop y Bont, Llanybydder

Siop Llangybi

Swyddfa Bost, Llanybydder

Swyddfa Bost, Felinfach

Swyddfa Bost, Llanllwni

Siop Pontsian

Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch

Siop y Pentan, Caerfyrddin

W D Lewis a'i Fab, Pumsaint

Clwb Rygbi Llambed



Tim ieuencid Llambed yn ennill cystadleuaeth y plat yn nhwrnament saith bob ochr Aberaeron.

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

C.Ff.I Ceredigion

Er bod yr haf yn adeg sy'n draddodiadol dawel i'r ffermwyr ifanc, mae 'na ddigon wedi bod ar y calendr i'n cadw ni'n fisi! Teithiodd lawer o'r aelodau lan i Lanelwedd i'r Sioe Frenhinol ac mae llawer o'r aelodau wedi bod yn paratoi, helpu a chystadlu yn eu sioeau lleol hefyd.

Athletau ac It's a Knockout - Yn anffodus oherwydd tywydd anffafriol penderfynwyd gohirio'r Athletau ar y 1af o Orffennaf. Roedd y mellt a tharanau wedi ein trechu a chan fod gymaint ymlaen yn yr wythnosau oedd yn dilyn rhaid oedd gohirio nes y flwyddyn nesaf.

Cynhaliwyd cystadleuaeth It's a Knockout gan Fforwm Ieuenctid y Sir yng Nghêl Aeron gyda nifer o dimoedd yn cystadlu. Diolch yn fawr i'r Fforwm Ieuenctid a fu'n trenfnu'r digwyddiad ac i'r rhai wnaeth ddarparu holl dasgau yr It's a Knockout! Diolch hefyd i Swyddogion y Sir am ddarparu'r bwyd! Roedd hi'n noson gwerth chweil gyda'r aelodau i gyd yn mwynhau!

Siarad Cyhoeddus FfCCFFI - Teithiodd aelodau'r Sir lan i Stoneleigh i gystadlu yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus FfCCFFI. Daeth y tîm Brainstrust dan 21ain i'r 3ydd safle ac fe ddaeth y tîm Siarad ar ôl Cinio dan 26ain i'r 2il safle- tipyn o gamp! Da iawn hefyd i Eiry Williams, Llangwyrfon am ddod i'r 4ydd safle yng nghystadleuaeth Ymgeisio am Swydd. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd am ganlyniadau arbennig, yn enwedig bod yr aelodau yn siarad yn eu hail iaith!

Sioe Frenhinol - Llongyfarchiadau enfawr i'r llu o aelodau a fu'n cystadlu a chynrychioli'r Sir yn y Sioe Frenhinol yn ystod Mis Gorffennaf. Daeth sawl clwb ac unigolyn i'r brig a phob aelod wedi cystadlu'n frwd yn eu hadran.

Llongyfarchiadau arbennig i'r Sir am gyrraedd y brig ar ddiwedd yr holl gystadlu ac am sicrhau fod Tlws NFU yn dychwelyd i'r Sir unwaith eto eleni!

Canlyniadau llawn o'r Sioe Frenhinol

Arddangosfa Ffedarasiwn – 7fed- C.Ff.I Llangwyrfon. Gosod Blodau – 1af – Ceris Jones, C.Ff.I Mydroilyn. Trin Gwlan- 5ed- Steffan Nutting, C.Ff. I Talybont. Cabaret – 4ydd – C.Ff.I Llanwenog. Dylunio a Chreu Baner Mor Leidr – 1af – C.Ff.I Caerwedros. Cneifo Defaid – 2il – Ceredig Lewis a Steffan Jenkins. Barnu Gwartheg Charolais – 10fed fel tîm ar draws yr adrannau. 1af i John Jenkins yn yr adran dan 18 oed a Dyfrig Williams yn yr adran dan 21 oed. Coginio – 3ydd- C.Ff.I Llangeitho. Cystadleuaeth Gwisgo i Fyny – 1af- Manon Jones a Daniel Evans. Dawnsio – 1af- C.Ff.I Felinfach

Crefft – 1af- Carwyn Davies, C.Ff.I Llanwenog. Barnu Defaid Beltex – 3ydd fel tîm ar draws yr adrannau. 1af i Elin Rattray yn yr adran dan 16 oed. Dyma dy fywyd – 1af- C.Ff.I Tregaron. Tynnu Rhaff- 6ed.Helfa Drysor – 4ydd - Cadi Jones a Nest Jenkins. Gwaith Coed- 1af – Marc James ac Edward Wells. Her y Mor Ladron – 5ed – Heini Thomas a Carys Jones. Barnu Merlod Cymreig Adran A – 1af fel tîm ar draws yr adrannau. 3ydd i Alaw Rees yn yr adran dan 18 oed. 3ydd i Rhodri Griffiths dan 21 oed. 3ydd i Gethin Morgan dan 26 oed. Ociswn Ffug – 3ydd – Llyr Jones ac Ifan Evans, C.Ff.I Pontsian. Cystadleuaeth Ffensio – 1af. Tlws Goffa R.L. Jones – Stoc i gyd – 3ydd

Diwrnod Allan ar y Fferm - Cynhelir Diwrnod Allan ar y Fferm ar ddydd Sadwrn y 19eg o Fedi yn Llanerchaeron, Aberaeron. Mi fydd mynediad i'r safle am ddim am y diwrnod ac felly dewch i fwynhau dathliad o amaeth yn Nyffryn Aeron a chyfle i weld Plasty Llanerchaeron. Mi fydd yna weithgareddau amaethyddol, stondinau a digon o bethau i weld ar gyfer y teulu cyfan.



Tîm barnu ceffylau Cffi Ceredigion a ddaeth i'r brig fel tîm gan ennill y cwpan dros Gymru yng Nghystadleuthau Cffi yn Sioe Llanelwedd yn ddiweddar. O'r chwith - Alaw Rees, Gethin Morgan, Rhodri Griffiths a Manon Turner.



Carwyn Davies, CFFI Llanwenog wedi ennill cwpan cystadleuaeth Crefft yn Adran y CFFI yn y Sioe Frenhinol.

Clwb 200 Mis Gorffennaf

1af: Mr H. M. Davies, Llandysul.

2il: Janet Morgan, Rockmill, Capel Dewi

3ydd: Gareth a Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder.

I Ddod....

- Nos Fercher y 9fed o Fedi, 7.30yh: Pwyllgorau'r Sir, Canolfan Addysg Felinfach
- Nos Fercher y 16 o Fedi, 7.30yh: Hyfforddiant Barnu Stoc
- Dydd Sadwrn y 19eg o Fedi: Diwrnod Allan ar y Fferm, Llanerchaeron
- Nos Fercher y 23ain o Fedi, 8yh: Pwyllgor Blynnyddol y Sir
- Nos Fercher y 30ain o Fedi, 7.30yh: Hyfforddiant Barnu Stoc
- Dydd Sadwrn y 10fed o Hydref: Diwrnod Maes y Sir, Mart Tregaron
- Nos Iau y 29ain o Hydref: Eisteddfod y Sir, Pafiliwn Pontrhydfendigaid
- Dydd Sadwrn y 31ain o Hydref: Eisteddfod y Sir, Pafiliwn Pontrhydfendigaid.



C.Ff.I Ceredigion yn ennill Tlws am y sir gyda'r pwyntiau uchaf yn y Sioe Fawr.

Digwyddiadau'r Haf -



Cystadleuaeth CFFI Gwisgo Aelod yn y Sioe Frenhinol- yr enillwyr oedd Daniel Evans a Manon Jones, o glwb Bro'r Dderi. Meir Douglas yw'r person wedi gwisgo fyny.



Gethin Morgans, Glwydwern, Gorsgoch gyda'r hwrdd penfrith Beulah a enillodd bencampwr yr Adran Ddefaid yn Sioe Cwmsychpant.



Maer a Maeres Llambled, Cyng Chris a Jan Thomas yn coroni Brenhines Carnifal Llambled, Skye Davies. Y morynion oedd Shauna Kerr a Caitlyn Gateley, a'r gweision bach oedd Callum Davies a Taylor Lewis.



Cwmni 'The Organic Fresh Foods', Llambled enillodd wobwr y Stondin Fwyd orau yn ogystal â'r stondin orau yn yr ŵyl. Dyma Lucy Watson yn dal y tlws.



Megan Davies, Ger-y-nant, Drefach yn ennill y Best Handler dan 12 yn Sioe Gorsgoch.



Gareth Ryder, Tyngrug-ganol, Llywydd Sioe Cwmsychpant yn roi ei araith ar ddiwrnod y Sioe.



Enillwyr y stondin diodydd gorau yn y Ffair Fwyd oedd Gwinllan Llaethlliw, Neuadd Lwyd, Aberaeron - Lena Daniel; Sue Evans a Megan Jones.

Bu Taith Tractorau Drefach yn llwyddiannus iawn yn ddiweddar pan godwyd £2,851. Ar ran Ambiwylans Awyr Cymru derbyniodd Ros Jones y sic ac Alan Hands dderbyniodd y sic ar ran Clwb Cledlyn. Yn y llun mae Ros Jones, Rosemary McKee, Trysorydd; Steve Greenfield; Peter Davies, Trefnwyr; Cyng. Euros Davies; Jeff Thomas, Trefnydd; Gordon Lonsdale ac Alan Hands.

Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen 2015



Unawd dan 6 [cyf] – 1. Fflur Morgan, Drefach. 2. Gruffydd Morris, Talyllychau. 3. Elin Dafydd, Cwmann. 4. Deina Evans, Llambed. 5. Tirion Tomos, Pencarreg.

Llefaru dan 6 – 1. Fflur Morgan. 2. Elin Dafydd. 3. Gruffydd Morris.



Unawd 6 – 9 [cyf] – 1. Alwena Mair Owen. 2. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig. 3. Megan Morris, Talyllychau. 4. Swyn Tomos, Pencarreg. 5. Cerys Angharad, Llangybi.

Llefaru 6 – 9 – 1. Alwena. 2. Cerys a Swyn. 3. Elen a Betrys.



Sioned Fflur Davies (dde) yn ennill y darian ar yr unawd dan 12 ac yn ail am lefaru - ei chwaer Ffion Mai yn ennill y cwpan am lefaru ac ail ar yr unawd gyda Gruffydd Llwyd Dafydd yn ennill dau drydydd ac Ifan Meredith [absennol o'r llun] yn gydradd drydydd yn y llefaru hefyd.



Yn ennill yr Ymgom agored - 'Yr Hen a wyr' - Ella Evans, Felinfach a Hanna Medi, Gwyddgrug.



Sgent ti Dalent? - Cyntaf - Ianto Jones, Cribyn.



Deuawd dan 21 - Lois Thomas, Llanllwni a Lowri Elen, Llambed.



Ensemble Lleisiol - Cyntaf Parti Gernant - Cyril Davies, Verina Roberts, Eirwen Davies, Rhian Twynog a Twynog Davies.



Megan Lewis o Lanfihangel y Creuddyn, ger Aberystwyth oedd enillydd y gadair i rai dan 25oed.



Enillydd Tlws Ieuencid am stori fer oedd Elen Gwenllian Hughes, Criccieth.



Ifan Meredith o Ysgol Bro Pedr (Iau) yn ennill y darian yn adran Celf a Chrefft i'r unigolyn uchaf ei bwyntiau.



Sioned Fflur Davies yn ennill y Rose Bowl i'r cystadleuydd mwyaf addawol dan 12 oed yn yr Adran Gerdd.



Mae wedi bod yn haf prysur iawn i aelodau Clwb Sarn Helen wrth iddynt deithio ar hyd a lled y wlad yn rhedeg ac yn beicio gan ennill nifer fawr o wobrau, ond y ddwy sydd wedi teithio bellaf yn ystod yr haf yn cynrychioli nid yn unig eu clwb ond eu gwlad yw Ffion Quan a Caitlin Page.



Cafodd y ddwy eu dewis fel rhan o dîm o dri yng nghystadleuaeth rhyngwladol cwpan ieuenctid rhedeg mynydd y byd yn Bulgaria. Roedd pymtheg o wledydd yn cymeryd rhan yn y gystadleuaeth hon, ac roedd rhaid i'r merched redeg cwrs heriol iawn o 3.6km gyda sawl dringfa serth a llwybrau anwastad yn eu gwynebu, ond fe wanethant yn arbennig o dda gyda Caitlin yn gorffen yn safle 44 a Ffion yn 45 a gorffennodd y tîm yn 13eg. Llongyfarchiadau mawr iddynt – mae'r clwb a'r ardal yn ymfalchïo yn eu llwyddiant!


Adroddiad Ras Cwmann 5

Nos Wener Gorffennaf y 10fed cynhaliwyd Ras Cwmann 5 am y pedwerydd tro, gan ddechrau a gorffen ar gae pentref Cwmann. Trefnir y ras hon gan un o aelodau'r clwb Siân Roberts-Jones gyda chymorth a chefnogaeth nifer o ffrindiau. Eleni cawsom bresenoldeb y redwraig a'r gyflwynwraig Angharad Mair a ddechreuodd rاسus y plant, cyflwynodd y gwobrau ar y diwedd yn ogystal â rhedeg y ras fawr. Cafwyd 48 o redwyr ar gyfer y ras 5 milltir sef y rhif mwyaf eto ac roedd hi'n frwydr o'r cychwyn cyntaf rhwng rhedwyr Aberystwyth Gary Wyn Davies a Ken Caulkett ond llwyddodd Davies i ennill y dydd gan gipio'r safle cyntaf a thorri record y cwrs mewn amser arbennig o 28.58. Carwyn Thomas, Sarn Helen gipiodd y 3ydd safle mewn 30.19 Enillydd ras y merched oedd Angharad Mair o glwb Les Croupiers mewn 32.33, gyda Elizabeth Tremlett o Trots yn 2il, 33.54 a Caryl Wyn Davies, Sarn Helen yn 3ydd mewn 36.18 Llwyddodd Gethin Jones a Richard Marks ennill eu dosbarth nhw gydag Andrew Davies, Calvin Williams, Katie McDermott, Eleri

Rivers a Dawn Kenwright yn dod yn 2il yn eu categorïau a David Thomas, Dee Jolly a Heather Hughes yn cipio'r 3ydd safle yn eu dosbarth nhw. Roedd gwobrau hefyd ar gyfer y ferch a'r bachgen cyntaf i orffen, nad oedd yn aelod o glwb rhedeg ac felly Dan James o Felinfach oedd enillydd y bechgyn a Nicola Higgs o Gwmann oedd enillydd y merched. Rhedwyr eraill yn cynrychioli Sarn Helen oedd Dylan Lewis 30.22, Sion Price 30.24, Carwyn Davies 30.48, Michael Davies 33.43, Glyn Price 33.56, Simon Hall 35.52, Paul Mc Dermott 35.59, Murray Kisbee 36.15, Haydn Lloyd 38.31, Terry Jones 38.49, Tony Hall 40.20, Fiona Jones 41.51, Mitchell Readwin 42.08, Gareth Jones 43.30 ac Emma Gray 55.24. Gwelwyd 58 o blant yn rhedeg y ras 800metr o 4 hyd 11oed. Cafwyd ras arbennig gydag ond 3 eiliad yn gwahaniaethu'r 3 cyntaf a phob un ohonynt yn cynrychiolu Sarn Helen. Dafydd Jones gipiodd y safle cyntaf mewn 2.57, Rhys Williams yn 2il mewn 3.00 a Jack Caulkett yn 3ydd mewn 3.00.08. Faye Jones o Carreg Hirfaen enillodd ras y merched mewn 3.05 gyda'r efeilliaid o Sarn Helen, Evie a Jessica Mackay yn 2il a 3ydd mewn 3.10.13 a 3.10.82. Rhedwyr eraill Sarn Helen oedd Jamie Jones 3.04, Llyr Davies 3.23, Gwenllian Llwyd 3.27, Sara Thomas 3.30, Katy Moyes 3.32, Leah Regan 3.37, Catrin Lewes 3.46, Sean Wood 3.50, Owen Davies 3.53, Tia Deacon-Jones 3.59, Violet Caulkett 4.03, Maddie Caulkett 4.10, Harri Rivers 4.44. Enillydd y ras 1500 metr oedd Thomas Willoughby, Sarn Helen, 6.04, yn agos ar ei gynffon oedd Gwion Davies, Aberaeron mewn 6.09 ac yn 3ydd cryf ac agos unwaith eto oedd Tomos Morgan, Ysgol Preseli mewn 6.12. Sarn Helen gipiodd pob gwobr yng nghategori y merched gyda Beca Ann Jones yn rhedeg ras dda mewn 7.03; gyda Gwen Thomas ac Isabella Caulkett yn gorffen yn yr 2il a'r 3ydd safle mewn amser o 7.36 a 7.50. Hefyd yn cynrychioli Sarn Helen oedd Daniel Willoughby 6.40, a Naomi Howells 7.58. Hoffai'r trefnwyr ddiolch o galon i A&B Plant Hire, Ffarmers am noddi'r gwobrau ar gyfer yr oedolion a'r plant – rydym yn gwerthfawrogi eu haelioni yn fawr iawn.

Canlyniadau eraill

Dydd Sul Gorffennaf 12fed, aeth naw o redwyr Sarn Helen i redeg ras mynydd Fan y Big yn Aberhonddu sy'n cael ei threfnu gan glwb Mynydd Du. Roedd hi'n ras 10.3 milltir o hyd yn cynnwys llwybrau garw a dringfa



Ras yr Wyddfa

Eleni, roedd Ras yr Wyddfa yn dathlu deugain mlynedd ar Orffennaf y 18fed gyda phedwar o Sarn Helen yn teithio i Lanberis i redeg y ras eiconic hon ar fynydd uchaf Cymru. Dyma'r nawfed cynnig i Kevin Hughes a Caryl Davies gyda Kevin yn gorffen mewn amser o 1.45.11 a Caryl 1.51.03, dros gwrs ychydig yn wahanol am fod y man cychwyn yng nghanol y dref yn hytrach na mewn cae cyfagos. Dyma'r tro cyntaf i David Thomas ac er nad oedd wedi mwynhau'r profiad gymaint â hynny gorffennodd mewn amser da o 1.50.28 a gall ddileu'r ras o'r rhestr "pethau i'w gwneud"! Gorffennodd Terry Wyn Jones, sydd hefyd wedi rhedeg y ras droeon mewn 2.02.48.

o 2,200troedfedd. Gwelwyd canlyniadau ardderchog gyda Dylan Lewis yn cipio'r ail safle mewn 1.15.59, Daniel Hooper yn gorffen yn 1leg ac 2il dynion 40 mewn 1.21.38, Glyn Price yn 4ydd dynion 40 mewn 1.25.23, Simon Hall 1.26.00, Calvin Williams 1.37.10, Tony Hall yn ennill categori y dynion 60 mewn 1.39.27, Dee Jolly yn cipio'r 3ydd safle i fenywod agored mewn 1.43.29, Huw Price 1.50.57, a Katie McDermott 1.58.09.

Yn dilyn ei lwyddiant yn ras Fan y Big yn Aberhonddu, derbyniodd Dylan Lewis wahoddiad i redeg y "Snowdon Super Cup" ar fore Ras yr Wyddfa. Ras i gopa'r Wyddfa yn unig yw hon lle mae criw bach o'r rhedwyr gorau wedi eu dewis i frwydro'u ffordd i'r brig. Cafodd Dylan ras dda gan redeg yn gryf i'r copa a gorffen yn y 12fed safle mewn 51.25. Nid oedd hyn yn ddigon i Dylan, felly'r diwrnod canlynol fe redodd ac enillodd ras 6 milltir yn Coniston yn y "Lake District" gydag aelod arall o'r Clwb Simon Hall yn gorffen yn 6ed.

Ar yr un diwrnod nôl yn Llambod, cynhaliwyd ras Tenovus 5k gyda Glyn Price, Siân Roberts-Jones, Calvin Williams, Eleri Rivers a Katie McDermott yn ennill gwobrau yn eu categorïau ac roedd rhedwyr eraill y clwb hefyd wedi cael ras dda gan orffen fel a ganlyn: Daniel Hooper 18.21, Steven Holmes 18.27, Mitchell Readwin 23.40, Fiona Davies 24.55, Gareth Jones 25.00, Darren Chant 28.08, Emma Gray 31.25, Jane Holmes 34.14 and Allen Watts 46.30. Nos Wener Gorffennaf 31ain cynhaliwyd ras flynyddol Caio, Llanwrda, gyda Simon Hall yn gorffen 2 funud yn gynt na'i

amser gorau ar y cwrs ac yn ennill y ras mewn 54.58, Carwyn Davies yn 2il mewn 56.01, David Thomas, 2il dynion 40 mewn 61 munud, Tony Hall 62 munud a Eris Rees 66 munud. Cynhaliwyd ras newydd 5k ym mhentref Abercych ar ddydd Sul Awst 2il, gyda Glyn Price yn gorffen yn yr 2il safle mewn amser arbennig o 18.21 ac Helen Willoughby hefyd yn gorffen yn 2il yn ras y merched mewn 23.47 a Gareth Jones mewn 25.28. Dros fis Gorffennaf ac Awst mae cyfres o dair ras wedi cymeryd lle ar draeth Poppit ger Aberteifi - 5k i oedolion a ras filltir i blant. Gwelwyd cynrychiolaeth dda iawn o Sarn Helen yn mhob ras a llwyddodd Dylan Lewis, Calvin Williams, Paul McDermott, Siân Roberts-Jones, Eleri Rivers, Katie McDermott, Sion Price, Helen Willoughby, Dee Jolly, a David Thomas i ennill gwobrau yn eu categorïau gwahanol. Ond fe wnaeth Calvin Williams ddod yn fuddugol yng nghategori'r dynion 50 dros y gyfres gydag Eleri Rivers hefyd yn ennill y gyfres i ferched dros 35 felly llongyfarchiadau iddynt.

Dydd Sadwrn Awst 8fed, rhedodd Caryl Davies Ras Glyndwr gan orffen yn 4ydd meynw agored mewn 31.13. Nos Wener Awst 7fed, cynhaliwyd ras 1.5 milltir i blant a ras 5 a 8 milltir i ieuenctid ac oedolion ym mhentref bach Myddfai a gwelwyd tyrfâ dda o Sarn Helen yno yn rhedeg. Gorffennodd Thomas Willoughby yn y 10 uchaf yn y ras 5 milltir gyda'i fam Helen Willoughby yn gorffen yn 4ydd merch. Yn y ras 8 milltir, cipiodd Glyn Price yr 2il safle mewn 52.35 gyda Carwyn Davies yn 5ed ac yn ail dynion agored mewn 55.12, David Thomas 59.15,



Dee Jolly 3ydd merch mewn 63.18, Dawn Kenwright 65.56, Eleri Rivers 66.03, Eric Rees 71.07, Fiona Davies 75.10 a Gareth Jones 77.38.

Wythnos yn ddiweddarach cynhaliwyd ras hwyl 6 milltir yn Brechfa er mwyn codi arian i'r neuadd leol ac roedd David Thomas, Dee Jolly a Simon Hall, a oedd yn cynrychioli'r clwb, yn falch o'r te a'r cacennau oedd ar gael ar ddiwedd y ras wedi iddynt redeg ras dda iawn ar lwybrau digon heriol gyda Dee yn gorffen y 3ydd merch. Dau ddiwrnod yn ddiweddarach roedd ras y maer yn Aberteifi gyda Dee Jolly yn parhau a'i llwyddiannau wrth orffen yr ail ferch ond cyntaf yn y merched agored mewn 46.20. Roedd Glyn Price hefyd yn llwyddiannus wrth iddo orffen yn ail yn y ras ac yn gyntaf i ddynion 40 mewn amser o 37.58. Cafodd Sion Price ras arbennig o dda gan redeg ei amser gorau o 38.28 a gorffen yn 2il dynion agored, llwyddodd Simon Hall i orffen mewn 39.18 gan dynnu 2 funud oddi ar ei amser blaenorol ar y cwrs, Gorffennodd Tony Hall yn 2il dynion 50 mewn 44.28 a Huw Price yn 3ydd dynion 50 mewn 44.53.



Mae Nigel Davies o Lanwenog wedi cyflawni camp anhygoel yn ddiweddar wrth iddo gymeryd rhan mewn ras 102.6 milltir ar hyd llwybrau "North Downs Way" ym mynyddoedd Surrey i Wye, yng Nghaint, gan ddechrau am 6 bore Sadwrn yr 8fed o Awst yng nghwmni 218 o redwyr eraill. Mae'r ystadegau yn rhyfeddol ac yn echrydus ar yr un pryd wrth i'r cwrs gynnwys cyfanswm o 9,930 troedfedd o ddringo, terfyn amser o 30 awr ac 14 gorsaf cymorth cyntaf ar hyd y daith. Llwyddodd Nigel i orffen yn oriau man ar fore Sul gyda'i wraig a'i blant yn aros yn eiddgar amdano, a hynny yn y 15fed safle mewn amser anhygoel o 21 awr 40 munud. Llongyfarchiadau anferthol iddo a gobeithio y caiff seibiant bach nawr cyn iddo ymgymryd â'i sialens nesaf.

Mae Dawn Kenwright newydd ddathlu ei phenblwydd yn 60oed ar y 30ain o Awst, ac mae hi'n dal i ennill gwobrau di-ri. Ar Orffennaf y 12fed fe gymerodd rhan mewn hanner marathon a oedd yn dechrau

a gorffen ar dir Castell y Waun ger Wrecsam a llwyddodd i orffen y ras mewn 1.45.02 gan ennill nid yn unig ei chategori merched 55, ond hefyd fe orffennodd y ras cyn merched categori 40 a 45.



Ar ddydd Sul gwlyb a gwyntog ar y 26ain o Orffennaf, fe redodd 10k Dinbych y Pysgod mewn 46.47 gan orffen yn llwyddiannus unwaith eto fel y ferch gyntaf yn y categori 55 allan o 530 o redwyr. Yna'r dydd Sul canlynol, gwnaeth Dawn barhau i ddangos ei thalent mewn ras 10 milltir yn Aberhonddu gan ennill ei chategori unwaith yn rhagor mewn amser o 1 awr 16 munud.

Adran y Plant

Mae plant a ieuencid y clwb hefyd wedi gwneud yn arbennig o dda dros fisoedd yr haf ac wedi cynrychioli'r clwb mewn nifer o rasus. Yn ras Tenovus Llambled, enillodd Llyr Davies y ras cynradd i fechgyn gyda Violet Caulkett yn ennill y ras i ferched, yna yn y ras 1.5k enillodd Jamie Jones ras y bechgyn gyda Gwenllian Llwyd Jones yn ennill ras y merched. Yn y ras 5k Jack Caulkett oedd yr enillydd i fechgyn dan 18 gyda Gwen Thomas yn cipio'r safle cyntaf i ferched dan 18. Teithiodd nifer o'n hieuenctid i draeth Poppit gan brofi tipyn o lwyddiant gyda Gwenllian Llwyd Jones, Rhys Williams, Thomas Willoughby a Gwen Thomas yn cael gwobrau yn eu categorïau gyda Daniel Willoughby, Jamie Jones, Harri Rivers a Sean Wood hefyd yn cynrychioli'r clwb yn ystod y dair ras ac wedi rhedeg yn arbennig o dda. Ar yr 2il o Awst, cafwyd ras arall ar y traeth gyda Sarn Helen yn cipio nifer o wobrau unwaith eto. Enillodd Rhys Williams categori y bechgyn 9-10 mewn 6.37 gyda Jamie Jones yn 2il yn yr un categori mewn 6.53. Gorffennodd Jack Caulkett mewn 6.51 yn ei wneud yn agos iawn i gael gwobr yn ei gategori yntau. Llwyddodd aelod newydd y clwb Faye Jones orffen yn ail ferch ac yn gyntaf yng nghategori y merched 9-10oed mewn amser o 7.03 gyda'i chefnider Jake Jones yn dilyn yn agos mewn 7.38. Gorffennodd y chwiorydd Sara a Gwen Tomas mewn amseroedd da o 7.46 a 8.06, a Sean Wood yn

rhedeg yn gryf unwaith yn rhagor i orffen 8.34 fel ag y gwnaeth y chwiorydd Caulkett a orffennodd fel a ganlyn: Bella 8.36, Violet 9.21 a Maddie 9.39. Yn y ras 1.5 milltir yn Myddfai ar y 7fed o Awst, roedd 6 allan o 19eg o'r rhedwyr o glwb Sarn Helen. Daeth Gwion Payne yn 2il yn y ras o dan 14 mewn amser o 15:08, gyda Daniel Willoughby yn ei ddilyn yn agos yn y 3ydd safle mewn 15:47. Cafwyd buddugoliaeth arall i Rhys Williams yn y categori o dan 11 mewn 14:56, gyda Jamie Jones yn 3ydd mewn 16:26, ac hefyd yn rhedeg yn gryf oedd Sean Wood, 19:30 ac Owen Davies, 19:35.

Clwb Beicio Sarn Helen

Roedd hi'n achlysur teuluol ar yr y 28ain o Fehefin, pan wnaeth y brodyr Eric a Dorian Rees a'u nai Carwyn Davies gymeryd rhan yn sialens y Merlin Sportive. Roedd y daith 102 o filltiroedd yn cynnwys golygfeydd godidog yn ogystal â dringfeydd serth iawn gyda



chyfanswm o 9,278 troedfedd.

Gorffennodd Dorian mewn 5 awr 59 munud, Eric mewn 6 awr ac 8 munud a Carwyn 6 awr 27 munud. Gwnaeth Gareth Payne a Tim Strang gymeryd rhan mewn 195k sportive o'r enw "The Monster" ar ddydd Sadwrn 11eg o Orffennaf lle orffennodd Gareth yn y 6ed safle mewn 7awr 51 munud a Tim mewn 8 awr 50 munud. Y diwrnod canlynol cafwyd perfformiad arbennig unwaith eto gan Payne wrth iddo orffen y ddringfa 8k ar fynydd du mewn 21 munud 28 eiliad a'i roi yn y 6ed safle eto. Gorffennodd Jake Gartland mewn 24.15 yn 10fed a Dorian Rees mewn 26.03 yn 13eg. Roedd y brodyr Rees wrthi unwaith eto ar Orffennaf 19eg wrth iddynt gymeryd rhan mewn cwrs 25 milltir trwy Glyn Nedd gan gyrraedd cyflymder o 29mya mewn manau. Gorffennodd Dorian mewn 63 munud ac Eric mewn 65 munud. Ar yr ail o Awst fe waneth y trio Eric, Dorian a Carwyn gymeryd rhan mewn "time trial" o ryw 50 milltir yn teithio o'r Fenni trwy Rhaglan tuag at Trefynwy cyn dychwelyd i'r Fenni. Gorffennodd Eric yn gyntaf o'r brodyr tro hyn mewn 2 awr 15 munud, Dorian 2 awr 17 munud a Carwyn mewn 2 awr 28munud.

Dydd Sadwrn, Awst 22ain, cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau yng Nghlwb Rygbi Llambled i godi arian at elusen JDRF sef ymchwil i glefyd y siwgr. Mae Clefyd Y Siwgr, neu 'Diabetes' yn effeithio ar blant a phobl ifainc, gan amlaf ac yn gyflwr sy'n trawsnewid bywydau y rhai sy'n dioddef o'r cyflwr. Mae'r elusen JDRF yn buddsoddi mewn ymchwil i wella'r driniaeth ohono a'r nod yn y pendraw yw darganfod ateb a fydd yn arwain at wellhad llwyr ohono.



Er gwaethaf glaw trwm y bore, mentrodd bron i gant o seiclwyr o bob oed a gallu i ddilyn y tair gwahanol gylchdaith o fewn yr ardal, yn amrywio o bellterau 9, 25 a 40 milltir. Bonws, yn wir, erbyn y prynhawn, oedd gweld yr haul yn ymddangos o'r cymylau i greu amodau seiclo ffafriol iawn.

Gyda'r nos, rhostiwyd mochyn a pharatowyd bwyd arbennig gan Mair a Tony Hatcher o Gwmni Cegin Gwenog, a dilynwyd hynny gan raffl, ocsiwn a cherddoriaeth fyw gan fand lleol y 'Golden Geckos'. Croesawyd Dr Simon Fountainpolly, Peditrydd o Ysbyty Bronglais a chafwyd ganddo araith bwrpasol at yr achlysur. Braf iawn oedd gweld y Clwb dan ei sang a phawb yn cefnogi'r achos mor hael ac yn manteisio ar y cyfle i gymdeithasu, yn ogystal!

Bu'n ddiwrnod hynod o lwyddiannus a llwyddwyd i godi swm sylweddol iawn o oddeutu £6,000, ac mae'r cyfraniadau yn parhau i ddod i law. Rhyddheir gwybodaeth am y ffigwr terfynol a drosglwyddwyd i elusen JDRF o fewn yr wythnosau nesaf.

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn gwahanol ffyrdd i sicrhau llwyddiant yr ymgyrch. Diolch arbennig i'r seiclwyr, o bell ac agos, am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau ac i bawb wnaeth gefnogi drwy ymuno â'r gweithgareddau gyda'r nos. Hefyd, i bawb a gyflwynodd eitemau ar gyfer yr ocsiwn a'r gwobrau raffl ac am y llu cyfraniadau ariannol dderbyniwyd at yr achos.

Llanfair Clydogau



Arddangosfa Gelf

'Gwledd i'r llygaid' oedd ymateb yr holl bobol a ddaeth i weld ein harddangosfa Gelf a gynhaliwyd dros dri diwrnod ar Awst 21, 22, 23. Roedd naw o artistiaid yn dangos eu gwaith, a chwech yn byw yn y pentref. Yr artistiaid oedd, Aerwen Griffiths, Ali Scott, Cassie Gray, Claire Parsons, Krystyna Krajewska, Sue Powell, John Petts, Cynthia Westney a Sarah Evans. Cafwyd tri diwrnod prysur dros ben, gyda phawb wedi mwynhau y cyfle o gael edrych ar y gwaith yn hamddenol dros baned a chacen, a'r cyfle i gael cymdeithasu. Roedd pob artist yn dangos gwaith gwahanol ac unigryw. Ar ôl llwyddiant yr arddangosfa a gynaliwyd yn Fferm Pentre llynedd penderfynwyd gwneud yr achlysur hyn yn un blynyddol.

Newyddion Hapus

Braf oedd clywed y newyddion fod babi wedi ei eni i Penny a Jonathon, sy'n byw yn Lamphey, Sir Benfro. Mae Jonathon yn fab i Arwyn a Dot, Llanfair Fawr, ac maent wedi enwi y ferch fach yn Thea ar ôl mam Jonathon. Llongyfarchiadau i Arwyn a Dot ar ddod yn famgu a dadcu am y tro cyntaf.

Cydymdeimlad

Hoffem gydymdeimlo yn ddwys ag Arwyn Davies, Pentre ar farwolaeth ei unig frawd, Glyn. Roedd y teulu wedi symud i Fferm Pentre pan oedd Glyn ac Arwyn yn eu harddegau.

Ar ôl gadael Ysgol Uwchradd Llanbed, bu Glyn yn ffermio adref cyn priodi ag Iris Lloyd, Doldrychen, Bont a symud i ffermio a chodi teulu ym Maesllyn, Tregaron. Cydymdeimlwn â'r teulu

oll.

Trist oedd clywed am farwolaeth Audrey Hill, Brynheulog gynt. Bu Audrey yn weithgar yn y pentref a'r eglwys yn ystod y blynyddoedd a dreuliodd yma.

Estynnwn gydymdeimlad dwys â Norman a'r teulu.

Hefyd, Cydymdeimlwn â theulu Eric Jones, Bro Clywedog gynt, a fu'n byw yn ein plith am flynyddoedd lawer.

Picnic Sefydliad y Merched - Mis Mehefin

Cafwyd croeso mawr yng nghartref Alan a Sally Leech, Tan-yr-Esgair ar noswaith bicnic flynyddol y sefydliad. Penderfynodd rhai, sy'n heini dros ben, gerdded y daith o'r sgwâr lan i Dan-yr-Esgair, gyda y rhan fwyaf ohonom yn defnyddio ein moduron. Ar ôl cyrraedd roedd Alan wedi trefnu taith fach ddiddorol o gwmpas eu dir yn cynnwys yr allt a

Nant Clywedog Ganol cyn cyrraedd yn ôl i'r tŷ lle roedd gwledd o luniaeth yn ein disgwyl. Fel arfer, roedd pawb wedi cyfrannu tuag at y bwyd arbennig a chafwyd noswaith gysurus o hwyl a chymdeithasu. Diolch o galon i Alan a Sally am y croeso a'u paratoadau.

Ym mis Gorffennaf, cafwyd noson ddiddorol iawn pan ddaeth Peter Stevenson i siarad am storïau gwerin Ceredigion, gyda Elsa Davies a Ceri Owen Jones yn cyfeilio a chanu gyda'r delyn a ffidl. Roedd yn noson agored gyda llawer wedi dod i wrando a dysgu am yr hen storïau a chanu gwerin traddodiadol Ceredigion. Roedd lluniaeth hyfryd i ddilyn fel arfer. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Ras Hwyaidd

Buom mor lwcus i gael diwrnod braf, a dim llif yn Nant Clywedog, i gynnal ein Ras hwyaidd flynyddol. Daeth llawer ynghyd i wyllo'r digwyddiad, gyda'r gobaith y byddent yn ennill, a llawer o weiddi a sbri. Ar ôl y ras, cafwyd lluniaeth braf nôl yn y neuadd. Diolch i bawb a gyfrannodd y bwyd, i Linda am drefnu y ras ac i bawb arall a fu wrthi yn helpu mewn unrhyw ffordd.

Sioe Llanbed

Llongyfarchiadau cynnes i Rebecca Miller, Cysgod y Coed am ennill y cwpan coginio.

Hi gafodd y mwyaf o farciau dros y cystadlaethau. Da iawn ti, Rebecca.

Llongyfarchiadau



Mae Llinos Thomas yn chwarae pêl-droed i dîm merched, dan ddeg, Felinfach. Nôl ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd cystadlaeth flynyddol pêl-droed i ferched yn Bow Street gyda thîm Felinfach yn cymeryd rhan. Yn un o'r gêmâu sgoriodd Llinos ei 'hat tric' cyntaf a chael ei dewis yn 'man of the match' mewn gêm arall. Ar ddiwedd y gystadlaeth Felinfach oedd yr enillwyr wedi curo Abertawe yn y rownd derfynol.

Da iawn Llinos.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.


Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Sior Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau
newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich
sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys;
cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu
creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a
llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:



01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Hanes

Bydd y Gymdeithas yn ail-gychwyn nos Fawrth yr 22ain o fis Medi, 7.30 yn Hen Neuadd y Brifysgol, pan gynhelir y Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol, ac yna bydd Hazel Thomas yn siarad am 'Casgliad y Werin', a dangos sut mae lluniau, dogfennau, ayyb yn cael eu digido ar gyfer y casgliad.

Dalier Sylw: y 4ydd nos Fawrth ym mis Medi yw'r dyddiad yma, nid y 3ydd fel sy'n arferol. Pris aelodaeth am y flwyddyn yw £7.50, neu £2 y noson os am ddod yn achlysurol. Croeso cynnes i bawb.

Amgueddfa Llambled

Mae nifer dda o bobol wedi bod trwy ddrysau'r amgueddfa dros yr haf,- o bob cwr o'r byd. Diddorol oedd clywed am rai oedd wedi gweithio yn Beijing yn China, ac yn gwybod yn iawn am hanes a gwaith arbennig y Parchedig Timothy Richard, o Ffaldybrenin. Roeddent yn dweud fod yna strydoedd yn y ddinas honno wedi eu henwi ar ei ôl.

Un arall o'r Unol Daleithau, yn olrhain hanes ei theulu. Ei hen-thadcu wedi ei eni yn Llambled yn 1865, ac wedi ymfudo i'r Amerig. Charles Evans oedd ei enw, - ac rydym wedi darganfod ei fod yn gefnder i Charles Evans, Mark Lane, Stryd y Bont, dyn busnes amlwg iawn yn nhref Llambled.

Bydd rhai o'r casglidau yn newid ddechrau mis Medi, - hanes y rheilffordd a Brwydr Waterloo yn diflannu, ac yn eu lle bydd arddangosfa yn dathlu Canmlwyddiant Sefydliad y Merched. Yn ogystal, bydd yr arddangosfa ar y diwydiant llaeth yn ymestyn i'r diwydiant menyn. Felly galwch i mewn eto i ddysgu mwy am hanes eich hardal.

Mae yna docynnau raffl ar werth o hyd drwy ddwylo aelodau'r Gymdeithas Hanes, neu yn yr Amgueddfa. Ydych chi wedi bod yn crafu'ch pennau wrth ddyfalu ble mae'r adeiladau sydd i'w gweld ar y daflen cwis? Mae'n llawer o hwyl, ac eto'n ffordd o ddysgu am ein hardal. Cefnogwch ym mha bynnag ffordd sy'n apelio atoch.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Dai ac Avanna Evans, Brynbach a'r teulu ar golli modryb ym Maes-y-meillion yn ddiweddar.

Hefyd, Elizabeth a John Warmington, Falkland ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

Pen-blwydd

Dathlodd Mrs Ceinwen Jenkins, Ceulan, Maestir ben-blwydd arbennig yn ystod mis Gorffennaf. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu.

Mab bach

Llongyfarchiadau i Elin a Berwyn Hughes, Pontfaen ar enedigaeth mab bach, Ianto Teifi. Brawd bach i Tomi.

Hefyd i Ann ac Aeron Hughes, Cwmhendryd ar gael wŷr bach ac i Mrs Magw Hughes, Pantydderwen ar ddyfodiad ei gor-wŷr. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Priodas Arian

Yng nghanol mis Awst dathlodd Emyr a Joy Lake, The Haven, Maesllan eu Priodas Arian. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Sefydliad Prydeinig y Galon

Cangen Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan

Yn ddiweddar roedd Mr Lewis Lewis, Llwyndewi, Stryd Newydd, Llanbedr Pont Steffan wedi dathlu penblwydd arbennig iawn. Dymuniad Lewis oedd bod dim anrhegion i fod ond bod arian yn dod i Cangen Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan o Sefydliad Prydeinig y Galon. Cafwyd rodd o £800-00.

Diolch yn fawr iawn am rodd mor arbennig.

Merched y Wawr, Llambled

Mae'n ddechrau blwyddyn newydd o weithgarwch unwaith eto. Bydd ein cyfarfod cyntaf ar nos Lun Medi 14 yn festri Shiloh am 7.30 o'r gloch. Cawn noson ddifys am hanes sefydlu Gwinllan Llanlliw gan Lena Daniel a Sue Evans ac

ychydig o flasau hefyd. Dewch yn llw a chroeso mawr i aelodau newydd!

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Jessica McDonagh, Amakhaya, Heol Maestir am basio Gradd 2 ar y piano gyda chlod o dan nawdd y 'London College of Music'.

Cneifio



Steffan Jenkins a fu'n cystadlu yn y Sioe Frenhinol yn Adran Cneifio y CFFi. Mae Steffan yn aelod o CFFi Llanwenog a chipiodd yr ail fel unigolyn gan sicrhau hefyd yr ail safle fel tîm.



Cafodd bowlwyr Llambled hwyl yn cystadlu yn twrnament '2 wood' y sir yng Nghastell Newydd Emlyn yn ddiweddar.

Bu Eddie Thomas yn fuddugol yn y gystadleuath i unigolion, a Henry Jones a Elfan James yn y parau.

Dyma lun o'r enillwyr gyda Ron Thomas, Llywydd y sir.



Mewn noson Bingo a gynhaliwyd yn Llain y Castell Llambled cyflwynwyd sic o £250 i Mrs Bet Davies gan Gerwyn Jones a Eric Williams ar ran Cymdeithas Cyn-ddiffoddwyr Tân Llambled. Bydd Mrs Davies yn cyflwyno'r sic i Gronfa Oncoleg Ysbyty Caerfyrddin.

Noddfa

Daeth cynulliad teilwng ynghyd i Noddfa yn ddiweddar i oedfa unedig yng ngofal Chwiorydd Bethel, Caersalem a Noddfa yn seiliedig ar hanes Efa sef y wraig gyntaf i droedio'r ddaear, yn ôl y Beibl. Roedd yr oedfa yn rhan o brosiect Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Cymerwyd rhan gan Beryl a Jennie (Bethel), June (Caersalem) a Delyth, Eiry, Erina, Janet, Llinos, Siân a Verina (Noddfa). Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Alwena (Noddfa) a chasglwyd gan Irene (Bethel) a Nesta (Noddfa).

Yn ystod y gwasanaeth soniwyd bod neges Gardd Eden mor gyfoes ag erioed. Mae'n stori bob dydd sydd yn ein hatgoffa o beryglon trachwant, temtasiwn a thwyll a bod yna ffiniau mewn bywyd sydd angen eu parchu.

Diolchodd John i bawb am eu gwaith canmoladwy gan gyfrannu at wasanaeth arbennig iawn a datganodd ei werthfawrogiad i Janet am drefnu. Talodd hithau deyrnged i'r Chwiorydd am fod mor barod i gymryd rhan a'i gobaith yw y bydd y dynion yn ymateb i'r alwad y tro nesaf!

Ysgol Sul Noddfa Noddfa

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau yn dilyn gwyliau'r haf nos Wener 4 Medi o 4 hyd 5 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd o 4 oed i fyny.

Cyn hir daw yr amser i ddechrau paratoi ar gyfer Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ifanc - y dyddiad i'w gadarnhau yn y dyfodol agos. Am fanylion pellach ynglyn â'r Ysgol Sul cysylltwch os gwelwch yn dda â Llinos (423921) neu Janet (422856).

Aelwyd yr Urdd

Mae'r amser wedi dod i ail ddechrau gweithgareddau'r tymor newydd yn dilyn y gwyliau. Bu'r flwyddyn hyd yma yn un i'w chofio i aelodau'r Aelwyd gan fod y parti llefaru dan 15 oed wedi ennill y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd y parti wedi cystadlu yn Eisteddfod Pantyfedwen er bod hanner yr aelodau i ffwrdd ar eu gwyliau ac yn methu bod yno! Y peth pwysig yw ein bod yn cefnogi'r Eisteddfod beth bynnag yw'r canlyniad.

Bydd cyfarfod agoriadol y tymor

Llanbedr Pont Steffan

ar ddiwedd Medi - dyddiad i'w gadarnhau.

Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd o un ar ddeg oed i fyny o dalgylch Clonc i ymuno â'r Aelwyd. Mae'r tâl aelodaeth am y flwyddyn yn £6.50 - borgen! Yr ydym yn cael llawer o hwyl wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn cynnwys chwaraeon, gêmiau o bob math, coginio, noson ffilm a popcorn, gweithdy drama a llawer mwy. Am fanylion pellach cysylltwch â Geinor Medi neu Janet os gwelwch yn dda.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi cael profedigaeth yn ystod misoedd yr haf.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Noddfa Llanbedr Pont Steffan nos Lun 28 Medi am 7 o'r gloch a'r Parchedig Alwyn Daniels yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Oedfa Eciwmenaid

Cynhelir Oedfa Eciwmenaid yn Shiloh nos Iau 17 Medi am 7 o'r gloch. Byddai'n braf gweld cynrychiolaeth dda yn bresennol o bob eglwys. Gwerthfawrogi eich cefnogaeth. Croeso cynnes i bawb.

Cylch Cinio

Bydd cyfarfod cyntaf y Cylch Cinio ar y nos iau gyntaf o Hydref yn y Clwb Rygbi. Yr ydym yn ffodus iawn y bydd un o sêr y cyfryngau sef yr amryddawn Heledd Cynwal yn agor y tymor newydd i ni. Mae yna groeso mawr i aelodau newydd trwy gysylltu gyda'r ysgrifennydd Tim Jones, Llainwen, Rhodfa Glynhegog 422644. Edrychwn ymlaen am flwyddyn lwyddiannus unwaith yn rhagor.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Carys a Dyfed Lloyd-Jones a'r plant, Menevia, Heol-y-Bont. Carys wedi colli ei thad gynt o Drefach Felindre a Dyfed yn colli ei fam, Elizabeth o Lanio ger Tregaron o fewn diwrnodau ar ddiwedd mis Awst. Derbyniwch ein cydymdeimld dwysaf.

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?

Hoffech chi weinyddu'r wefan? Neu beth am waith dylunio?

Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant. Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.



Carnifal Llambled - Tweetie Pie (Osian Morgan) enillodd i fechgyn o dan 5 gyda Sam Tan (Edwin Wickham) yn ail.



Prif enillydd carnifal Llambled oedd Pop Art (Kodi Jones).

Carnifal Llambled

Cynhaliwyd Carnifal Llanbedr ar Ddydd Sadwrn y cyntaf o Awst gyda'r orymdaith yn dechrau o Ysgol Bro Pedr ar hyd y Stryd Fawr, Stryd Newydd, Stryd y Bont, a Stryd y Coleg i gaeau'r Clwb Rygbi. Dyma'r canlyniadau:

Y Fflôt Orau – 1. Ninja Turtles, 2. Pirate Ship, 3. Noddy.

Gwisg Ffansi, Merched tan 5 – 1. Cadi Davies, 2. Lily Evans, 3. Tia Gilbert

Bechgyn dan 5 – 1. Osian Morgan, 2. Edwin Wickam, 3. Lucas Sion Jones

Merched 5-7 – 1. Catrin Davies, 2. Seren Ling, 3. Caitlin Lawley

Bechgyn 5-7 – 1. Steffan Davies, 2. Logan Jones, 3. Llyr Jones

Merched 8-11 – 1. Kodi Jones, 2. Catrin Daniels, 3. Carys Davies

Bechgyn 8-11 – 1. Kesley Jones, 2. Sion Harry, 3. Logan Jones

Pâr 11 a thano – 1. Nia a Ffion Davies, 2. Logan Jones a Catrin Daniels, 3. Elan a Lluan Jones

Merched 12-15 – 1. Olivia Gdula

Bechgyn 12-15 – 1. Iestyn Owens, 2. Owain Jacobs, 3. Steffan Daniels

Pâr 12-18 – 1. Nathan Plant a Owain Jacobs, 2. Steffan Daniels a Brenig Ifans, 3. Iestyn Owens a Owen Heath.

Agored dros 18 – 1. Ann Davies, 2. Debbie 3. Ben Gilbert

Pâr dros 18 – 1. Shirley Jones a Alicia Rowsey, 2. Leanne Davies a Mary Jenkins, 3. Ann Davies a Dilys Megicks.

Prif Enillydd :- Kodi Jones

Graddio

Llongyfarchiadau i Iona Harrison Maes Helem am raddio BA yn Nyrsio oedolion. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd yn Ysbyty Tregaron.

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153

e-bost: ieuan@glynhegog.co.uk

Y we: cwrtphotoresizing.com

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmman

12fed Medi 2015

Llywyddion: Dafydd a Delyth Jones, Ffosyffin.

Sioe, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Bar, Bwyd, Hufen Iâ ac atyniadau eraill.



Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:

Danny Davies 423692, Eiddig Jones 422655

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boiler olew

Gwres canolog

Ystafelloedd ymolchi a cheginau

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

**Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat**



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â

Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com



Enw: **Anwen Mair Jones**
Oed: 21
Pentref: New Inn
Gwaith: Gweithio adre ar y fferm deuluol a yn y coleg rhan amser.
Partner: Will Tucker
Teulu: Dad, Mam, Arwel ac Aled (Brodyr)

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Mynd i'r Sioe frenhinol a chael ast dalmation gan Santa.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Come outside with Pippin the dog.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Colli Mam yn Tesco.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Bod yn gwrtais a thrin pobl fel yr hoffech chi gael eich trin.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
I gallio!

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Milfeddyg.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Anghytuno gyda Aled fy mrawd gan roi pwsh iddo nes ei fod yn cwmpo a thorri ei gollar bone!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Allan ar y ffarm.

Beth yw dy lysenw?
'Blaenblode'.

Pwy yw dy arwr?
Tadcu Blaenblodau

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Cadno, er mwyn cael y bois i fy chaso!

Beth yw dy arbenigedd?
Bach o allrounder.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Digon o awyr iach.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Camerau cyflymder.

Pa mor wyrdd wyt ti?
Dim o gwbl, mam sy'n gyfrifol am ailgylchu yn tŷ ni.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?



Pris teg i bob amaethwr am eu cynnyrch.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobol ddiog sy'n meddwl bod nhw'n gwbod gwell.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Mewn arwethiant defaid a hyrddod Penfrith Beulah.

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Cico iet a ffacturo bys troed nôl yn mis Awst.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Ar ôl noson allan yn sioe Llandeilo (2015).

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan gymysgodd defed lan ar ôl i'r bois adel iet ar agor tra'n carto bales.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Drws nesaf i gwrci ginger!!!

Pryd oeddet ti'n borcyn diwethaf o flaen person arall?
Ar y nudust beach newydd sydd yn Cei!! (jôc)

Unrhyw ofergoelion?
Cerdded o dan ysgol a'r rhif anlwcus 13.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Graddio eleni.

Ac yn bersonol?
Ennill myfyriwr amaeth y

flwyddyn yn y sioe frenhinol.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?
Yfed digon o laeth – lot rhatach na dŵr dyddie ma.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Chwarae hoci a chwrsio defed.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
'Go for it...'

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Pasio prawf gyrru.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Swil, amyneddgar a charedig.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Accident prone a gwyllt.

Beth yw dy hoff wisg?
Tshirt, jeans a wellies.

A'th hoff adeilad?
Y shed ddefed!!

Beth yw dy ddiod arferol?
Baileys ar ôl 8 peint o seidir!!

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Farmers Weekly.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Allan ar y penwythnos gyda'r merched ac abell i ddrinc.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Prydlondeb.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Bess yr ast ddefed.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Canu fel anti Marian!!

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Milky coffi bob bore gyda Mamgu cyn dechre gwaith.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Teulu a ffrindiau.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
Argwlydd dyma fi.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Shetland.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Teulu.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?
Tadcu Blaenblodau.

Y gwyliau gorau?
Seland Newydd yn 2013.

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
Yr Wyddfa, Sioe Sir Fôn a Dan yr Ogof.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Awstralia, UDA a Chanada.

Arferion gwael?
Cnoi ewinedd.

Pa sioc alli di roi i ddarllenwyr Clonc amdanat ti dy hun?
Fi wedi gwneud 'Sky dive' a naid bynji yn Seland Newydd ac wedi golchi llestri unwaith yn unig!!

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Y Gallu i hedfan, mwy o siawns fyddai ar amser i lefydd wedyn a llai o siawns cael fy nal yn speedo!!

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Rhoi'r ffôn symudol ar charge.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Dal yn ffermio ond wedi ehangu gobeitho.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Hefin Jones,
Llanllwni.

Drefach a Llanwenog

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gwawr Jones, Meysydd, Drefach ar lwyddo i ennill gradd Ph. D. o adran Gerddoriaeth Prifysgol Bangor yn ddiweddar. Ffrwyth yr ymchwil oedd datblygiad canu proffesiynol yn ystod y 19 ganrif a chyfraniad Clara Novello Davies i ganu corawl yn y cyddestun hwnnw. Mae Gwawr bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ac yn rheoli'r Uned Gymraeg ym Mhrifysgol De Cymru. Dymuniadau gorau i ti Dr Gwawr Jones.



Llongyfarchiadau i Rhydian Jones, gynt o Meysydd Drefach, a dderbyniodd radd M.A. o Brifysgol Bangor yn ystod yr haf. Mae Rhydian bellach yn byw ym Methesda Gwynedd gyda'i wraig Hayley, yn bennaeth adran Addysg Gorfforol ac yn Gyfarwyddwr Dysgu yn Ysgol Uwchradd Aberconwy. Dymuniadau gorau i ti yn dy yrfa.

Cymdeithas Hŷn

Erbyn hyn, mae cyfres triplau'r haf bron a dod i ben, ond mae dwy daith wedi bod ers i rifyn diwethaf 'Clonc' ymddangos. Taith i Gydweli a Llanelli oedd un mis Gorffennaf. Aros yn Fferm y Bocs ar gyrrion Cydweli am goffi; canolfan garddio ar y llawr isaf, caffi ar y llawr uchaf, - a nwyddau arbennig i'r tŷ, - hyfryd fel anrhegion.

Ymlaen i Gastell Cydweli, a gweld cofeb Gwenllian gerllaw. I ganolfan siopa Trostre am ychydig, cyn troi yn ôl am y dre' ac i Barc Howard, lle gwelwyd casgliad da o 'lestri Llanelli', ynghyd â'r amgueddfa ar hanes yr ardal ar y llawr cyntaf. Y gerddi'n hyfryd o gwmpas - a'r haul yn gwenu unwaith eto, wedi dechreuad braidd yn wlyb i'r siwrne. Swper yn Llangennech cyn dod am adre.

Ym mis Awst, mynd i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, yn benodol i weld dau o'r casgliadau sy'n cael eu harddangos ar hyn o bryd. Y cyntaf oedd y casgliad sy'n cofnodi canmlwyddiant geni T Llew Jones; llawer o ddeunydd personol i'r teulu, a dyddiaduron y bardd a'r llenor. Dangoswyd fideo o

Llew Jones yn rhoi tipyn o'i hanes ym Mhabell Lân yr Eisteddfod Genedlaethol, a'i hiwmor arbennig yn dod â llawer i stori'n fyw iawn.

Yr ail gasgliad oedd hwnnw'n coffáu canmlwyddiant a hanner y Cymry wnaeth ymadael â'u gwlad enedigol, gan obeithio am ddechreuad newydd - a gwell - ym Mhategonia. Prin fod yr un ohonynt yn gwybod beth oedd o'u blaenau. Diolch i Sian Elin ac i Emyr a fu yno i'n croesawu a'n tywys o un arddangosfa i'r llall, - bore diddorol dros ben.

Symdwyd ymlaen wedyn i Orsaf Bŵer Cwm Rheidol, a chael esboniad ar yr hyn sy'n digwydd yno, - hwn eto yn agoriad llygad i llawer ohonom. Nôl i Aberystwyth, a mwynhau'r tywydd braf ar y prom; swper yn y Marine, a phawb wedi mwynhau.

Bydd y trip olaf ar y 9fed o fis Medi yn mynd i Tŷ Tredegar ar gyrrion Casnewydd.

Enwau i Yvonne 480590.

Capeli Bethel a Brynteg

Bu aelodau'r ddau gapel, ynghyd ag aelodau Capel Nonni, Gwyddgrug a'r Tabernacl Pencader ar eu pererindod flynyddol yn ystod mis Awst. Taith i gofio am Phylip Pugh yr Ymneulltuwr, (sefydlydd Capel y Cilgwyn yn Llangybi), a Ieuan Evans - Ieuan Fardd, neu Ieuan Brydydd Hir, o Ledrod. Cynhaliwyd gwasanaethau yng Nghapel Blaenpennal, ardal enedigol Phylip Pugh, ac yng Nghapel Rhydlwyd, Lledrod, nepell o fan geni Ieuan Fardd.

Bu aelodau'r pum capel yn cymeryd rhan yn y ddwy oedfa, a'r Parchedig Ddr Rheinallt Davies yn rhoi hanes a chefnidir y ddau berson amlwg yma yn hanes Cymru a'u dylanwad ar yr iaith Gymraeg.

Gwellhad Buan

Braf yw gweld Daniel Evans, Tandderi yn well ar ôl iddo ddebryn llaw driniaeth yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf yma.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Jackie a Hefin Davies, Gwel-y-Dyffryn ar ddathlu eu Priodas Arian yn ystod yr Haf.

Arholiad

Llongyfarchiadau i Hanna Davies, Ger-y-nant ar basio Arholiad Canu Gradd 4 yn ddiweddar.

Eglwys Santes Gwenog

Ym mis Gorffennaf bu hanner cant o archaeologwyr yn ymweld â'r eglwys. Myfyrwyr hŷn oeddynt ac yn treulio wythnos addysgiadol yng ngholeg Dewi Sant/Drindod yn Llambled. Yn absenoldeb ein Ficer Y Parch Suzy Bale bu'r Parch Bill Fillery yn olrhain a chyflwyno

hanes yr adeilad hynafol iddynt. Mwynhawyd cwpaned o de a lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan wragedd yr eglwys i ddiweddu prynhawn diddorol. Diolch i'r gwagedd am eu paratoadau ac hefyd i'r myfyrwyr am eu cyfraniad hael i goffrau'r eglwys.

Nos Sul Awt y 9fed daeth cynulleidfa i fwynhau cyngerdd yn yr eglwys. Yr artistiaid oedd Côr Meibion Blaenporth o dan arweiniad Mr Dennis Black a'r gyfeilyddes Helen Blackburn. Cafwyd rhaglen hyfryd a phoblogaidd gan y côr a swynwyd y gynulleidfa gan eu lleisiau cyfoethog. Yr artist gwâdd oedd Carys Griffiths-Jones o Aberaeron, ond yn enedigol o Gwrtnewydd. Bu Carys yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Mezzo Soprano yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod. Gwerthfawrogwn ei pharodrwydd i gymeryd rhan yn y gyngerdd wedi wythnos brysur o gystadlu. Gwnaeth ei llais cyfoethog argraff fawr ar y gynulleidfa ac rydym yn ddiolchgar i Carys ac i'r Côr am ei gwasanaeth di-dâl. Bydd elw'r noson yn ei rannu rhwng Cymdeithas Alzymers Ceredigion a Chronfa'r Eglwys. Diolch i'r gwagedd am eu gosodiadau o flodau tymhorol yn yr Eglwys. Diolch hefyd am baratoi a gweini lluniaeth i'r côr ar ddiwedd y cyngerdd. Llongyfarchiadau i Rhian Jones, Awelon a Tomos Evans, Vale of Cledlyn ar eu llwyddiant yn arholiadau TGHC. Dymuniadau gorau i'r dyfodol ac i bawb arall fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau.

Dymunwn wellhâd buan i bawb sy'n anhwylyd, naill adref neu yn yr ysbyty. Cofiw'n arbennig am Iorwerth Davies, 2 Highmead Cottage ac hefyd Mr Roger Clive Powell. Gobeithio hefyd fod Mrs Margaret Rees, Llysdolau yn dal i wella ac edrychwn ymlaen eich gweld chi a David nôl gyda ni yn yr Eglwys yn fuan.

Ein cydymdeimlad dwysaf a phawb sydd wedi colli eu hanwyliaid. Cofiw'n am Mrs Jackie Davies, Gwel y Dyffryn sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar sef Mr Meidrim Thomas, Pontarddulais.

Clwb Cant. - Ymddiheuriad am fod enwau mis Mai yn anghywir. Dyma'r rhai iawn.

Mai.- 1. Lynne Goodall, Sychbant. 2. Ian Jones, Cwmsychbant; 3. Liz Tipping, Llanwenog.

Mehefin- 1. Bernice Leppard. 2. Liz Tipping 3 Elizabeth Fillery, Llambled.

Gorffennaf. 1. Beryl Lewin, Drefach. 2. Ethan Abbot c/o Rhiwson Isaf. 3. Emyr Jones Awelon.

Bore Coffi Macmillan

Cynhaliwyd bore coffi a the yn festri Capel Brynteg ar yr 22ain o fis Awst er mwyn codi arian i Gronfa

Cynnal cleifion â chaner Nyrsus Macmillan, a chodwyd £460 i'r gronfa deilwng yma.

Trefnwyd y cyfan gan Rhian Davies, Abertegan gyda help nifer o ffrindiau, a dymuna ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, eu cyfraniadau, anrhegion ar gyfer y raffl a'r cacennau hyfryd. Bu'n fore hwylus a buddiol.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Jackie, Hefin a'r teulu, Gwêl y Dyffryn sydd wedi colli tad, tadcu a hen-dadcu yn ddiweddar.

Sioeau'r Haf



O fewn deuddydd i'w gilydd enillodd Megan Davies, Ger-y-nant adran y plant Bl. 1 a 2 ac hefyd gwobr arbennig yn Sioe Llambled ac yna ennill y Best Handler dan 12 yn Sioe Gorsgoch trannoeth.

Llongyfarchiadau i BAWB sydd wedi llwyddo yn eu haroliadau Gradd, Safon Uwch a TGAU yn ystod yr haf. Pob dymuniad da i chwi gyd i'r dyfodol.

Rhifyn Hydref

Yn y Siopau Hydref 1af

Erthyglau, Newyddion a Llundiau i law erbyn Medi 21ain

Gorsgoch

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad i Eirwen a Gwilym Evans, Gwynfryn ar golli ei chwaer sef Hettie Evans, Caerwenlli yn ystod misoedd yr Haf.

18 oed

Dathlodd Daniel Morgans, Glwydwern ei ben blwydd yn 18 oed yn ystod y Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd. Gobeithio i ti fwynhau'r dathliad.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Gethin Hatcher, Cefnhafod a Sara Davies, Trefaes Fawr, Beulah ar eu dyweddïad ganol mis Awst. Dymuniadau gorau i chwi hefyd yn eich cartref newydd ym Mhenllain.

Priodas Aur

Ar ddiwedd mis Awst dathlodd Gerwyn a Lorraine Williams, Heol y Gors eu Priodas Aur. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Sioe Gorsgoch

Cynhaliwyd 35ain Sioe Amaethyddol, Cynnyrch, Ceffylau a Hen Beiriannau Gorsgoch ar gaeau Glwydwern, Llanwnnen, trwy garedigrwydd Elfyn a Sharon Morgans ddydd Sadwrn, 15fed o Awst. Prif elusen y sioe eleni yw Nyrsys Cymunedol Meddygfeydd Llambled, Llanbydder, Llynnyfran a Teifi (Llandysul).

Ynghyd â'r cystadlaethau yn y babell ac ar y cae, cafwyd arddangosfa sgiliau cŵn gan y 'Cantref Gwaelod Agility Club', arddangosfa o gynnyrch alpaca gan 'Bird Farm Alpacas', paentio wynebau, mabolgampau i'r plant ac ocsiwn lwyddiannus iawn yng ngofal Eifion Morgans.

Cynhaliwyd Eisteddfod Ddwl gyda'r nos. Roedd hi'n noson llawn chwerthin gyda talentau timoedd Pontsian, Sarn Helen, C.Ff.I. Llanwenog a thîm y Sioe. Llongyfarchiadau i Sarn Helen am ddod i'r brig.

Er mawr foddhad i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y sioe, cafwyd sioe lwyddiannus iawn o

ran niferoedd a safon y cystadlu. Cyflwynwyd y gwobrau gan y Llywydd, Mr James Lloyd (Super Jim), Ynysforgan, Abertawe, i'r canlynol:

CEFFYLAU: Ceffylau mewn llaw – Pencampwr – Dai Evans, Clogfryn (Trenewydd Gwenfryn). Is-bencampwr – Euros Davies, Llys y Wawr (Cilseni Misty Made); Marchogaeth – Pencampwr – Ashley Hill (Ceredigion Lleuven). Is-bencampwr – Ella Harries (Briggy); Hynodion y Ceffylau – Amy Chapman, Llanbydder; Pencampwr yr adran geffylau, ac yn derbyn cwpan Hang-On yn roddedig er cof am Tim a Dorothy Thomas, Ffynon Rhys – Ashley Hill gyda Ceredigion Lleuven.

DEFAID: Defaid Llanwenog – Pencampwr – Huw Evans, Alltgoch. Is-bencampwr – Huw Jenkins, Llysfaen Uchaf. Gwobr Cymdeithas Defaid Llanwenog – Huw Evans, Alltgoch. Defaid Speckled – Pencampwr – Teulu Morgans, Glwydwern. Is-bencampwr – Jones, Blaenblodau. Defaid Continental – Pencampwr – Teulu Owens, Glantre, Pontsian. Is-bencampwr – Teulu Williams, Tynllyn. Unrhyw frîd "Lowland" arall – Pencampwr – John Jones, Penrheol, Cwmsychpant. Is-bencampwr – Thomas, Waunlluest. Unrhyw frîd mynyddig arall – Pencampwr – Davies, Llwynfedw. Is-bencampwr – Davies, Llwynfedw. Oen i'r cigydd – Pencampwr – Teulu Owens, Glantre, Pontsian. Is-bencampwr – Teulu Owens, Glantre, Pontsian. Pencampwr y Pencampwyr yr adran ddefaid, ac yn ennill cwpan her Wyn Morgans, Glwydwern – Teulu Morgans, Glwydwern. Arddangosydd gorau – Megan Llwyd Davies, Drefach. Barnu Wyn Tew C.Ff.I – Enfys Hatcher (Cefnhafod gynt), Llanddewi Brefi.

HEN BEIRIANNAU: Pencampwr, ac yn ennill cwpan her Jim Evans, Fronwen – Elgan Jones, Gwel y Cledlyn, Cwrtnewydd

GWARTHEG BIFF: Pencampwr – Jones a Davies, Penhill, Penrhiwllan. Is-bencampwr – Williams, Tynllyn, Llanwnnen.

GWARTHEG GODRO:

Pencampwr – Teulu Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd. Is-bencampwr – Teulu Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd. Cafwyd cwpan newydd eleni ar gyfer y fuwch neu treisiad odro orau o fuches di-linach, sef Cwpan Her Ffynnonrhys – Teulu Jenkins, Tyllwyd, Llambled

DOFEDNOD: Pencampwr – Mrs Cooke, Wern Newydd, Ty Mawr, Llanbydder

Y BABELL: Cynnyrch Gardd

– Aeron Davies, Cribyn; **Coginio** – Gwyneth Morgans (Glwydwern gynt), Pensarnau; **Gwinoedd** – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd; **Cyffraith** – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd; **Gwaith Llaw** – Joanne Jones, Llainwen, Llambled; **Blodau** – Eirwen Evans, Gwynfryn, Gorsgoch; **Cystadlaethau 18 oed neu iau** – Meinir Davies, Caerwenog, Cwmsychbant; **Cystadlaethau 26 oed neu iau** – Enfys Hatcher (Cefnhafod gynt), Llanddewi Brefi; **Adran Plant Ysgol Gynradd:** **Blwyddyn 6 neu iau** – Meryl Evans, Rhydsais; **Blwyddyn 2 neu iau** – Fflur Morgan, Rhydyfelin, Drefach; **Ysgol â'r marciau uchaf yn yr adran arlunio, ac yn ennill tarian her Cyngor Cymuned Llanwenog** – Ysgol Cwrtnewydd; **Cwpan Her Blaencathal, am focs o gynnyrch gardd** – Bessie Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd; **Pencampwr y babell, ac yn ennill cwpan her Malcolm Fuller** – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd.

Hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r sioe y flwyddyn nesaf ar ddydd Sadwrn 20fed o Awst 2016.



Pencampwr yr adran geffylau oedd Ashley Hill gyda Ceredigion Lleuven.



Llywydd y dydd, Jim a'i wraig Gloria Lloyd.

Cwrtnewydd

Diolch

Dymuna Evan David Evans, Brynhogfaen, ddiolch yn fawr i bawb anfonodd gardiau a dymuniadau da iddo adeg dathlu ei benblwydd yn 50 yn ystod Mis Awst. Hefyd am y llu anrhegion a dderbyniodd. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu y diweddar Cornelius Richards, gynt o Gwarnant a fu farw yn ddiweddar yn Llys Pedr, Llambled.

Hefyd cydymdeimlwn â Kate Davies, Tynfryn ar golli ei chwaer Hettie Evans, Caerwenlli yn ystod yr Haf.

Ar wellhad

Da yw deall fod Anne Thomas, Milford lawer yn well ar ôl iddi dderbyn ysgwydd newydd yn ystod yr Haf.

Gobeithio fod Anne Evenden, Gwalia yn well hefyd ar ôl iddi gwympo adref yn ddiweddar.

Eisteddfod Genedlaethol

Llongyfarchiadau i Carys Griffiths-Jones, Aberaeron merch Jean a Peter Griffiths, Fronddu ar ei llwyddiant yn y Genedlaethol drwy ennill yr Unawd Mezzo-Soprano.

Merch fach

Croeso cynnes i Efa, merch fach i Eluned a Ifor Jones, Cae Sarn, a chwaer fach i Eysyllt. Pob dymuniad da i chi.

Pen-blwydd Arbennig

Yn ystod mis Awst dathlodd Evan David Evans, Brynhogfaen ei benblwydd yn hanner cant. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

Cyrddau Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd ar nos Iau, Hydref 1af am 7y.h. Pregethir gan y Parchedig Peter Cutts, Caerfyrddin.

Hefyd, cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn ar nos Lun, Hydref 5ed. Pregethir gan Parch Alun Wyn Dafis, Cei Newydd. Croeso cynnes i bawb i'r ddwy oedfa ddiolchgarwch yma.

Ysgol Cwrtnewydd



Ysgol Gynradd Cwrtnewydd yn derbyn yr ail wobwr am addurno whilber yn y Sioe Frenhinol. Yn y llun ac yn derbyn y wobwr mae Jac a Mari Rees a Megan Davies.



Llun o enillwyr Sioe Gorsgoch 15/08/2015 gyda'r Llywydd, Mr James Lloyd (Super Jim), Ynysforgan, Abertawe.

Lluniau 'r Sioe gan Rhian Jones

Yn y Gegin gyda Gareth



Miri Mwyar Mis Medi

Wrth ffarwelio â'r Haf – braf yw croesawu Tymor yr Hydref i gegin ‘Clonc’. Rhaid cyfaddef haf digon diflas, gwlyb ac oer y bu hi ar y cyfan. Felly, rwyf fi fel nifer eraill yn siwr, yn gobeithio am dywydd gwell ym mis Medi a chael ‘Haf bach Mihangel’ a fydd yn bendant o fudd i gynhaefu y Cynhaef.

Gyda thymor newydd fe ddaw ffrwythau ac aeron arbennig, gyda’r perthi yn llawn mwyar. Rwyf bob blwyddyn wrth fy modd yn casglu mwyar ar y fferm, ac yn meddwl am rysetiau newydd wrth eu casglu.

Mae yna fwy i’r mwyar na crwmbwl neu Jam, er fod rhain yn hyfryd dros ben ac yn ffefrynnau gennyf – rhaid yw arbrofi. Mynd i gasglu tra bo’r haul allan a chael tarten i de.

Mwynhewch y rysetiau a ‘Mwyar Mis Medi’.

O’r gegin,

Gareth

Mŵs Mwyar

Cynhwysion-

8 oz 225 gm o fwyar

2oz 50 gm siwgrwr brown

1 llond llwy fwrdd o crème de cassis

300 ml o hufen

2 llond llwy fwrdd o frandy

Gwyn dau ŵy



Dull

1. Gosodwch y mwyar, siwgrwr a’r cassis mewn sosban a choginiwch i ryddhau’r suddion. Yna i mewn i’r hylifwr ac yna drwy ridyll, yna oerwch.
2. Curwch yr hufen gan ychwanegu’r brandy a wedyn y puree mwyar yn raddol.
3. Chwyrliwch yr ŵy a phlygwch i’r gymysgedd, rhannwch rhwng gwydrau ac addurnwch gyda mwyar a mint.

Pwdin plwms a mwyar.

Cynhwysion-

5 llond llwy fwrdd o fêl

Zest a sudd un lemwn

Zest a sudd un oren

Llond un llwy bwddin o “rose water”

4 eirinen wedi hanneri a gwaredwch y garreg

100gm o gnau pistachio

Tua 8oz o fwyar.

Dull

1. Trowch y grill i wres cymhedrol
2. Mewn powlen cymysgwch y mêt, zest a sudd y ffrwythau a’r “rose water”. Gosodwch yr eirin, y toriad ben i lawr mewn dysgyl. Arllwyswch y syrur drostynt, coginiwch am 5 munud, trowch yr eirin drosto, llenwch a’r mwyar a’u coginio am 4 munud arall o dan y grill.
3. Malwch y cnau gyda gweddill y syrur mewn prosesydd yna llenwch yr eirin yn unigol yna yn ôl o dan y grill am tua 2-3 munud. Gweinwch gyda hufen.

Tarten mwyar ac afal gwahanol

1 pecyn o does ‘puff’

250 gm caws Mascarpone

1 pot o gaws hufenog

Llond llwy de o fanila

2 afal coginio mawr

200 gm mwyar

1 ŵy

2 lond llwy fwrdd siwgrwr




Dull

1. Rholiwch y toes, gosodwch ar tun pobi hirsgwar; brwsiwch ag ŵy. Pobwch am 15 munud ar 200° C 180° Fan. Trowch drosodd gan ei bobi eto am tua 5 munud. Gadewch i oeri
2. Tynnwch groen yr afalau a’u torri’n giwbiau, a’u coginio mewn sosban gyda’r mwyar a’r siwgrwr. Gadewch i oeri.
3. Cymysgwch y caws, mascarpone a’r fanila; lledeinwch dros y toes, yna’r compote ffrwythau dros ei ben. Addurnwch â mintys ffres.

Ffair Fwyd Llambled

Mae Ffair Fwyd Llambled wedi hen ennill ei lle erbyn hyn yng nghalendr digwyddiadau gorllewin Cymru. Eleni oedd y deunfawfed flwyddyn i’r ŵyl gael ei chynnal, ac roedd campws y coleg yn cynnig lleoliad godidog eleni eto ar ei chyfer. Bu’r tywydd yn neilltuol o garedig, ac roedd hi’n braf gweld



Gareth Richards, o Gegin Gareth wrthi yn dangos sut i wneud pwdinau blasus yn y babell

pobol o bell ac agos yn mwynhau’r haul a’r gwres. Yn wir, daeth pobol o bob cwr o Gymru, a daeth rhai o mor bell i ffwrdd ag Awstralia! A gyda chant o stondinau, roedd digon o bethau i’w denu. Roedd hi’n braf gweld cymaint o gynhyrchwyr o Gymru, rhai yn dod am y tro cyntaf a rhai sydd wedi bod yn ein cefnogi ers blynnyddoedd.

Eleni hefyd am y tro cyntaf, nid un stondin yn unig a wobrwyyd, ond cafwyd tri chategori. Dyma’r buddugwyr – stondin fwyd: Organic Fresh Food Company (Llanbedr Pont Steffan); stondin ddiod: Gwinllan Llaethliw (Aberaeron); stondin grefftau: Old Board Company (Crymch), a chwmni bwyd Organic enillodd y wobwr am y stondin orau i gyd.

Yn ogystal â’r stondinau, roedd arddangosfeydd coginio’n cael eu cynnal yn gyson trwy gydol y dydd, roedd pabell gerddoriaeth ac adloniant, yn ogystal â gweithgareddau hamdden i blant.

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi. Cynhelir yr ŵyl y flwyddyn nesaf ar ddydd Sadwrn, 23 Gorffennaf 2016.

Pencarreg

Priodas Arian

Dathlodd Geraint a Mair Williams, Muriau Gwyn eu Priodas Arian yn ystod mis Awst. Gobeithio eich bod wedi dathlu mewn steil.

Adferiad Iechyd

Yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llanelli, da yw gweld Glenys Morgans, Rhydowen yn gwella mor dda. Ein dymuniadau gorau i ti.

Colledion

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Mrs Vera Edwards, Heol y Maes, gynt o Cefnbryn Lodge a gwraig y diweddar Hywel, un o feibion yr hen deulu Edwards o fferm Cefnbryn.

Cyfarfu Vera a Hywel pan oedd y ddau yn ifanc ac wedi priodi cawsant deulu niferus.

Yn rhinwedd swydd Hywel gyda’r Fyddin, bu’r ddau yn byw am flynyddoedd dramor ymysg llefydd eraill hoffai sôn am yr amser hapus treuliodd y ddau yn Singapore. Yn dilyn marwolaeth Hywel symudodd

Vera i Heol y Maes a bu’n aelod ffyddlon yn Eglwys Sant Padrig. Roedd cael sgwrs gan Vera bob amser yn ddiddorol.

Mi roedd Vera yn ddynes ddeallus ac yn llawn gwybodaeth wedi teithio’r byd. Roedd wedi dioddef llawer o dor calon ac wedi claddu nifer o’i meibion i afiechyd ond mi roedd yn ddewr yn wynebu’r cyfan. Trist yw ffarwelio â Vera ac mae ‘na wagle ar ei ôl. Cydymdeimlwn gyda theulu a ffrindiau Vera yn eu colled.

Trist yw cofnodi marwolaeth Malcolm neu Malcolm Claret fel yr adnabyddir gan ei ffrindiau. Un o fechgyn pentref Pencarreg oedd Malcolm ac mae mor druenus cofnodi ei farwolaeth mor fuan ar ôl colli ei fam oedrannus ac yntau mor ifanc.

Trist iawn oedd gweld dirywiad iechyd Malcolm, a byddwn yn cofio amdano ar ei orau yn fachgen ifanc tal a’i wallt du tonnog, yn fab cariadus i’w fam, Annie a’i dad, Donald ar ei haelwyd yn Claret House.

Llambed

Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan

Nos Lun y 10fed o Awst cynhaliwyd cystadleuaeth Barnu Gwartheg Godro ar fferm Llanfair Fach drwy garedigrwydd teulu'r Jones. Y beirniad oedd Mr Dai Thomas, Pantffynnon, Llanwnnen. Dyma'r canlyniadau:

Dan 18 - 1af – Gethin Jones, Clwb San Ishmael. 2il – Dafydd James, Clwb Bryngwyn. 3ydd – Tomos Griffiths, Clwb San Ishmael. 4ydd – Rebeca James, Clwb Llanddewi.

Dan 26 - 1af – Dafydd Evans, Clwb San Ishmael. 2il – Gruffydd Evans, Clwb St Peters. 3ydd – Bethan Phillips, Clwb San Ishmael. 4ydd – Aron Dafydd, Clwb Bro'r Dderi.

Agored - 1af – Mair Evans. 2il – Aeron Hughes, Cwmhendryd. 3ydd – Tomos Jones, Felindre. 4ydd – Rhys Jones, Cilerwisg.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Barnu Gwartheg Biff nos Fawrth 12fed o Awst ar fferm Cwmhendryd, drwy garedigrwydd teulu'r Hughes. Beirniad y gystadleuaeth oedd Mr Rhydian Davies, Fronfedw, Dihewyd.



Dan 18 - 1af – Dafydd James. Clwb Bryngwyn. 2il – Gethin Morgans, Clwb Llanwenog. 3ydd – Steffan Rattray, Clwb Trisant a Huw Lewis, Clwb Trisant.

Dan 26 - 1af – Ceris James, Clwb Bryngwyn. 2il – Elin Childs, Clwb Llanfynydd. 3ydd – Sara Non, Clwb Llanfynydd. 4ydd – Ffion Rees, Clwb Llanfynydd. Cwpan Her Parhaol er cof am Mr Lloyd Davies Pontfaen yn rhoddedig gan Mr a Mrs Aeron Hughes a'r teulu, Cwmhendryd. Cyflwynir y cwpan i'r cystadleuydd gyda'r marciau uchaf yn adran barnu biff.

Yn derbyn y cwpan eleni oedd Ceris James o Glwb Bryngwyn.

Agored - 1af – Elfyn Morgans. 2il – Mair Evans. 3ydd – John Jones, Geraint Williams, James Davies a Trudy Davies.

Trefnwyd raffl gan Aeron, Ann a'r teulu i godi arian at Ward Stroc Ysbyty Bronglais. Diolch i'r rhai gyfrannodd wobrau niferus ac i bawb wnaeth brynu raffl, codwyd swm sylweddol at yr achos yma. Diolch i Aeron, Ann a'r teulu am drefnu hyn eleni eto, meant bob blwyddyn yn cynnal raffl i godi arian at achos da sydd â rhyw gysylltiad â'r Pwyllgor.

Diolch i bawb ddaeth i gystadlu a chefnogi'r noson.

Cneifio Llambed

Cafwyd diwrnod llwyddiannus yng Nghneifio Llambed 2015 a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 18fed o Orffennaf ar Fferm Capeli, Cribyn. Dechreuodd y cystadlu tua 8:30yb, gyda'r dosbarth iau yn cychwyn y diwrnod, a 34 cneifiwr yn cystadlu. Yna daeth yn amser rhagbrawf i'r dosbarth canolradd, gyda 60 yn cystadlu. Ar ôl hyn, y rowndiau cynderfynol i'r ddau ddsbarth. Cafwyd rhagbrofion i'r Cneifio Gwellau gydag 8 cystadleuwr, rhagbrofion i'r ddau ddsbarth olaf sef y dosbarth uwch lle'r oedd 47 yn cystadlu, a'r dosbarth agored gyda 37 yn cystadlu, yna'r rowndiau cyn derfynol i'r ddau ddsbarth. Nesaf cafwyd prawf rhyngwladol rhwng Cymru a Ffrainc, ac yna'r ffeinal i'r dosbarth iau a'r canolradd, cyn cael prawf rhyngwladol arall rhwng Cymru a Seland Newydd – uchafbwynt y diwrnod i rai. Ac yna gorffen y diwrnod gyda'r ddau ffeinal mawr i'r dosbarth uwch ac agored.



Gareth Owen, Beddgelert a ddaeth yn 1af yn y 'Blade Shearing' yn cael y 'sash' gan Lywydd y dydd Clive Mills.

Celf a Chrefft

Eisteddfod Llambed

Gwnio a llaw: 1af ac 2il Joan Jones, Llambed; 3ydd Dilys Godfrey, Cwmann. **Sampler:** 1af Joan Jones; 2il Dilys Godfrey; 3ydd Morwen Thomas, Llambed. **Tapestri:** 1af ac 2il Ray Thomas, Llambed; 3ydd Dilys Godfrey. **Peintio Carreg:** 1af Gabriella Ysgol y Dderi; 2il Ifan Meredith Bro Pedr; 3ydd Fflur Meredith Bro Pedr. **Ysgol Gynradd:** 1af Danielle Murray; 2il Niamh O'Sullivan; 3ydd Isaac Killick – pawb o Ysgol Bro Pedr. **Ysgol Uwchradd:** 1af Elan Jones Ysgol Bro Pedr. **Collage:** 1af Ifan Meredith Bro Pedr; 2il Megan Teifi Dark Ysgol Henry Richard; 3ydd Will Hockenhill Ysgol Henry Richard. **Eitem o Origami:** 1af Ifan Meredith Bro Pedr; 2il Summer Howden Bro Pedr; 3ydd Megan Morris Bro Pedr. **Llun allan o basta:** 1af Megan Thomas Ysgol Henry Richard; 2il Savannah George Bro Pedr; 3ydd Ceris Angharad Bro Pedr. **Gwau:** 1af Eluned Davies, Dihewyd; 2il Dilys Godfrey; 3ydd Ray Thomas. **Crosio:** 1af Ray Thomas; 2il Eluned Davies; 3ydd Ray Thomas. **Tegan Meddal:** 1af ac 2il Margaret Williams, Llanarth; 3ydd Eluned Davies. **Crochenwaith:** 1af Maria Thorley Llanwnnen; 2il Guto Ebbsworth Llanwnnen; 3ydd Christine Boyle Ysgol y Dderi. **Gwaith Pren neu Fetel:** 1af Carwyn Davies, Penffordd; 2il a 3ydd Rhodri Price, Llanbedr Pont Steffan. **Ffotograffiaeth Cynradd:** 1af Gwion Hefin Aberystwyth; 2il Logan Lewis y Dderi; 3ydd Logan Lewis Y Dderi. **Ffotograffiaeth Uwchradd:** 1af ac 2il Mari Hefin, Aberystwyth; 3ydd Lucy Angharad Hill, Ystrad Aeron. **Ffotograffiaeth Agored:** 1af ac 2il Hefin Jones, Aberystwyth; 3ydd Margaret Jones, Cei Newydd. **Llawysgrifen CA1:** 1af Alwena Mair Owen, Llanllwni; 2il Gareth Davies Ysgol Henry Richard; 3ydd Jasmine Jones Bro Pedr. **Llawysgrifen CA2:** 1af Gwennan Haf Jones Ysgol y Dderi; 2il Cerian Evans Ysgol Felinfach; 3ydd Austin Thomas Ysgol Bro Pedr. **Arlunio Agored:** 1af Gwenda Harries Llanwrda; 2il Di enw; 3ydd Gwenda Harries. **Arlunio Derbyn a Meithrin:** 1af Deina Hanly Evans; 2il Carys Wall Bro Pedr; 3ydd Callum Fisher Bro Pedr. **Arlunio Blynnyddoedd 1 a 2:** 1af Humor Hanvas; 2il Arlo Teifi; 3ydd Maja Subotowiaz – pawb o Ysgol Bro Pedr. **Arlunio Blynnyddoedd 3 a 4:** 1af Michael Mc Donagh Bro Pedr; 2il Elen Medi Jones Carreg Hirfaen; 3ydd Alexander Casicby Bro Pedr. **Arlunio Blynnyddoedd 5 a 6:** 1af Gruffydd Jones Bro Pedr; 2il Tomos Morris Bro Pedr; 3ydd Ann Davies Ysgol y Dderi. **Unrhyw Gyfrwng Blynnyddoedd 7, 8 a 9:** 1af Di enw; 2il Sara Elan Jones Bro Pedr; 3ydd Lucy Angharad Hill Ystrad Aeron. **Dylunio a Thechnoleg CA1:** 1af Tomos Wyn Lloyd Jones; 2il Taylor Lewis; 3ydd Charlotte Finch - Y tri o Ysgol Bro Pedr. **CA2:** 1af 2il a 3ydd Ifan Meredith Ysgol Bro Pedr. **Blynnyddoedd 7, 8 a 9:** 1af Sara Elan Jones Bro Pedr. **Celf Gyfrifiadurol CA1:** 1af Kandrad Syguda Bro Pedr; 2il Taylor Lewis Bro Pedr; 3ydd Keeley Barrett Bro Pedr. **CA2:** 1af ac 2il Austin Thomas Bro Pedr; 3ydd Savanna George Ysgol Henry Richard. **Ysgol Uwchradd:** 1af Lucy Angharad Hill Ystrad Aeron; 2il Ffion Jones Bro Pedr.

Enillydd y tlws arbennig i ddisgybl ysgol Uwchradd eleni oedd Rhodri Price, Langwm, Heol y Bryn, Llanbedr Pont Steffan am y blodyn hyfryd allan o fetel.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cystadlu ac i athrawon yr ysgolion am yr annogaeth a'r gwaith caled yn helpu'r plant. Diolch i'r beirniaid Mr a Mrs Helen Thomas a Mr a Mrs Shirley Howells, Pontyberem. Diolch hefyd i Gelfi Cain am y tlws hyfryd.

Ysgol Bro Pedr



Derbyniodd Lucy Davis ac Owen Rowcliffe dystysgrifau a gwobrau am eu gwaith fel Llysgenhadon Chwaraeon yr ysgol oddi-wrth y sgilefriwr enwog Jamie Barrow mewn seremoni yn ddiweddar. Diolch iddynt am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.



Joanna Hekiert o flwyddyn 6, Ysgol Bro Pedr yn ennill Cwpan Cyfeillgarwch Huw ac Elizabeth Jenkins. Da iawn ti Joanna.

Cwmsychpant



Dymuna Euros Davies ddiolch i bawb am yr arian a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd arbennig yn ddiweddar. Penderfynodd gyfrannu yr arian sef £1,700 i Uned Cemotherapi yn Ysbyty Glangwili. Yn y llun gwelir Euros a'i wraig Janet yn cyflwyno'r sic i Dr Lopez hefyd Sr. Linda Jones, S/N Jessica Nalpin a John James (Flash) sydd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd yn yr uned.

Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant 2015

Cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a Sioe Flynyddol Cwmsychpant a'r Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen ar ddydd Sadwrn, Awst yr 8fed trwy garedigrwydd Mrs. Ella a Mr. Vernon Davies.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor ac eleni roedd yr elw yn mynd tuag at Uned y Galon, Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin. Codwyd swm sylweddol a fydd yn cael ei drosglwyddo i'r elusen yn hwyrach yn y flwyddyn.

Dechreuodd diwrnod y sioe yn gynnar gyda'r treialon a bu'r cŵn defaid yn rhedeg o'r bore bach tan yr hwyr. Unwaith eto eleni roedd y babell yn llawn o gynnyrch amrywiol ac roedd y cyfan o safon uchel. Cynhaliwyd mabolgampau i'r plant hefyd yn y bore ac mi wnaeth nifer helaeth ennill rhubanau. Cafwyd arddangosfa o hen beiriannau hefyd a oedd yn werth i'w gweld.

Ein Llywydd eleni oedd Mr. Gareth Ryder, Tyngrug-Ganol, Cwmsychpant a braf iawn oedd cael ei gwmni a'i bresenoldeb yn y sioe. Cafwyd araith bwrpasol ganddo lle soniodd am y pwysigrwydd o barhau gyda'r sioe leol sydd yn tynnu pawb yn yr ardal at ei gilydd. Mawr hefyd yw ein diolch iddo am ei barodrwydd i feirniadu gwahanol ddosbarthiadau ar y dydd ac am ei rodd haelionus.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins a Dewi Jones wrth y llyw. Unwaith yn rhagor gwerthwyd nifer helaeth o bethau a gyfrannwyd gan gefnogwyr y sioe a chodwyd arian sylweddol i'r elusen.

I gloi'r diwrnod penigamp, cafwyd adloniant yng nghwmni'r grŵp lleol a phoblogaidd sef Newshan. Yn wahanol i'r arfer penderfynwyd newid ar drefn y noson gan gynnal sesiwn ganu i'r plant yn gyntaf ac yna cystadleuaeth "Taclo'r Tasgau". Cystadleuaeth i grwpiau o bedwar oedd "Taclo'r Tasgau" a gwelwyd deunaw grŵp yn rhoi tro ar dacro'r pedair tasg a roddwyd iddynt ar y noson. Cafwyd llawer o hwyl gyda phawb yn cefnogi eu tîm drwy weiddi a chlapio. Enillwyr y tasgau eleni oedd "The late arrivals". Llongyfarchiadau mawr iddynt. Gorffennwyd y noson yng nghwmni Newshan a chafwyd canu da a dawnsio hyd oriau mân y bore.

Gwelir isod rhestr enillwyr y dydd:

Treialon Cŵn Defaid

Cenedlaethol Agored - Irwel Evans â Bob. Nofis Cenedlaethol - Irwel Evans â Jem. Agored De Cymru - J B Jones â Joe. Nofis De Cymru - Emyr Lloyd â Sal.

Gwinoedd – Margaret Jones, Caeglas, Cwrtnewydd. **Cyffeithiau** – Pamala Davies, 4 Heol y Bryn, Cwrtnewydd. **Coginio** – Wendy Davies, Caerwenog, Penffordd. **Gwaith Llaw** – Eluned Davies, Bryniau, Dihewyd. **Crefft** – Carwyn Davies, Caerwenog, Penffordd. **Ffyn** – Andrew Jones, Cwmgwyn, Pentre Bach. **Ffotograffiaeth** - Beca a Lisa Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychpant. **Arfunio Plant - Bl. 2 ac o dan** - Jac Rees, Ysgol Cwrtnewydd. **Bl. 3 a 4** - Luned Jones, Ysgol Cwrtnewydd. **Bl. 5 a 6** – Lucy Cooper, Ysgol Llanwnnen. **Adran Plant - Dan 8** - Jac Rees, Maesllwyd, Cwmsychpant. **9 ac o dan 12** – Lleucu Rees, Caeronnen, Penffordd. **12 ac o dan 17** - Cerys Pollock, Brynmeddyg, Cwmsychpant. **Adran Blodau** - Ann Bellamy, Hendy, Rhuddlan. **Celfyddyd Blodau** – Victor Edwards, Tyddyn Gwyn, Rhydowen. **Cynnyrch Gardd** – Aeron Davies, Llainffynnon, Cribyn.

Adran Geffylau - Pencampwr yr Adran Geffylau – Dai Evans, Clogfryn, Aberaeron. **Pencampwr yr Adran Geffylau i Blant** - Ela Harries, Talgarreg.

Adran Ddefaid - Pencampwr Croesfridio – Morgans, Glwydwern, Gorsgoch. **Taleb gwerth £25** – Morgans, Glwydwern, Gorsgoch.

Dymuna pwyllgor Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniwyd gan sicrhau fod y sioe eleni eto yn un llwyddiannus.



Bu Tywysog Cymru yn ymweld â Thalgarreg yn ystod mis Gorffennaf a bu'n siarad gyda Eifion Jones, Talarwen am yr amryw gerbydau oedd ganddo i'w ddangos.

Trip Ysgol Sul

Oherwydd tywydd gwlyb iawn fe orfodwyd i ni newid lleoliad ein trip blynyddol ar ddydd Sul, Gorffennaf 26ain. Awd i nofio yn LC2 yn Abertawe. Cafodd pawb 2 awr wrth eu boddau yn nofio a mynd ar y llithren ddŵr. Cafwyd pryd o fwyd yn y caffî cyn troi am adre. Gobeithio bydd y tywydd yn fwy ffafriol i ni y flwyddyn nesaf!

Diolch

Hoffai teulu y diweddar Nans Davies, Tyngrug-Uchaf ddiolch yn fawr i bawb a wnaeth gyfrannu tuag at Nyrsys Marie Curie, trosglwyddwyd swm o £300 iddynt yn ddiweddar. Dymunant ddiolch hefyd i Ddoctoriad a Nyrsys Llyn-y-

Frân, Llandysul am eu gofal ohoni ar hyd yr amser.

Hoffai Osian a Tina Potter, Mynach Arms, Cribyn ddiolch i bawb a gefnogodd yn hael iawn yn ddiweddar yn ystod eu ymdrechion i godi arian at Elusen, sef uned Telemetreg newydd yn Ysbyty Plant Cymru, yng Nghaerdydd ar ôl y gofal arbennig gafodd eu merch Madi Potter yno yn ystod y bedair mlynedd diwethaf. Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am y rhoddion hael tuag at yr arwerthiant a'r raffl, yr holl rhoddion arian tuag at yr elusen ac i bawb a ddaeth i gefnogu'r digwyddiadau gynhaliwyd yn Nghlwb Rygbi Llanybydder. Codwyd gyfanswm sylweddol o £4,700 tuag at y Elusen.



Enillwyr y tasgau eleni oedd "The late arrivals" - Margaret, Osian, Owain a Dewi.



Prif enillwyr y sioe gyda'u medalau a chwpannau gyda Llywydd y dydd, Mr Gareth Ryder, Tyngrug-ganol.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Shwmae? Wel i ble'r aeth yr haul eleni? Bu'n bwrw glaw yn sobor iawn drwy'r gwyliau cyfan. Bues i'n brysur tu hwnt yn chwarae gyda ffrindiau ac yn mynd ar dripiâu. Bues i am dro yn y parc yn fy nillad tywydd gwlyb, am drip i'r sw, a chael sawl picnic dan do gyda'm ffrindiau. Gwyliau bendigedig!! Ond nawr mae'n amser i'r ysgol ail ddechrau a chyfle i weld hen ffrindiau a chwrdd â ffrindiau newydd.

Wel cefais lond lle o luniau lliwgar a thaclus dros wythnosau'r haf. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Holly Ann Davies o Abertawe, Alwena Mair Owen o Lanllwni a Lili Peyto o Gaint. Ond y llun taclusaf a'r un mwyaf lliwgar oedd un Joshua Peyto, 99 Woodland Park, Bexley, Caint. Da iawn bawb a llongyfarchiadau i ti Joshua!

Nawr beth am fynd ati i liwio llun y llyfrau a'r pensilion ysgol yn barod ar gyfer mynd nôl i'r ysgol? Cofiwch ei ddychwelyd i mi cyn **dydd Llun, Medi 21ain**. Mwynhewch y lliwio!




Enillydd
ymis!

Joshua
Peyto

Beth am hysbysebu ym mhapur bro

CLONC

Hysbyseb 6.5 x 5cm am £10, neu £60 mewn deg rhifyn
Hysbyseb 6.5 x 10.5cm am £20, neu £120 mewn deg rhifyn
Hysbyseb 6.5 x 5cm lliw am £25, neu £150 mewn deg rhifyn
Hysbyseb 6.5 x 10.5cm lliw am £50, neu £300 mewn deg rhifyn
Chwarter tudalen am £40, neu £100 am hysbyseb lliw
Hanner tudalen am £60, neu £150 am hysbyseb lliw



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

MEIFOD

Mae'r enw hwn yn digwydd mewn gwahanol rannau o Gymru - yn Abergele ac yn Llandrillo yn Rhos, yn Aberconwy, yn Llanenddwyn yn Sir Feirionnydd, yn Llanrhaeadr-yng-Nghynmeirch yn Sir Ddinbych, a cheir Y Feifod ger Llangollen.

Bydd safle'r Eisteddfod, sut bynnag, ym Meifod yn Sir Drefaldwyn, yn nyffryn Efyrrwy. Ystyr Meifod yw 'trigfan yn y canol': mae'n cynnwys yr elfennau 'mei' sef canol a 'bod' sy'n dynodi cartref parhaol, man preswyllo. Mae'r elfen 'mei' yn digwydd hefyd mewn ychydig o enwau yn Sir Gaerfyrddin: yn Meidrum, ac yn Meiros ym mhlwyfi Llanegwad a Llangel. Yr ail elfen yn Meidrum yw 'trum' sef, cefnen, crib, copa a'r ail elfen ym Meiros yw 'rhos' sef, tir uchel gwyllt, gweundir.

Y farn draddodiadol yw mai ystyr Meifod yw 'trigfan ar gyfer mis Mai'; yn union fel y mae 'hafod' yn dynodi trigfan dros yr haf. Rhaid gwrthod yr esboniad hwn yn achos Meifod, Sir Drefaldwyn, gan ei fod ar lawr dyffryn Efyrrwy, safle sy'n fwy addas ar gyfer trigfan barhaol (a thros y gaeaf).

EFYRRWY

Dechreuodd awdurdodau dinas Lerpwl godi argae yn Nyffryn Efyrrwy er mwyn sicrhau cyflenwad dŵr digonol yn 1881; erbyn hyn y nodwedd amlycaf o ddigon yn rhan uchaf y dyffryn yw Llyn Efyrrwy (Llyn Llanwddyn ar dafod amryw Gymry Cymraeg). Crëwyd y llyn yn 1888 ac ar y pryd hon oedd y gronfa ddŵr fwyaf yn Ewrop. Corfforaeth Ddŵr Hafren a Thronnion yw perchnogion y gronfa er 1974.

Ar fapiau diweddar defnyddir Efyrrwy (Vyrnwy) yn unig ar gyfer yr afon

a ffurfiwyd drwy uno Cedig, Eiddo, Nadroedd ac Eunant greu'r llyn. Llifa Efyrrwy drwy Llanwddyn, Dolanog a Meifod gan ymuno â Hafren yn Cymerau.

Ar dafodau'r bobl lleol gelwid yr afon yn Afon Llanwddyn yng nghyffiniau Llanwddyn, yn Afon Pontllogel yng nghyffiniau Pontllogel ac yn Afon Dolanog yng nghyffiniau Dolanog.


Efyrrwy oedd yr hen enw ar afonydd Gam a Banwy yng nghyffiniau Mathrafal. Llifa'r afon a elwir bellach yn Gam trwy Nant yr Eira. Mae rhai mapiau'n cyfeirio at Banwy/Banw islaw Pont Glanbanw fel afon Banw neu Einion, ffurf sy'n tarddu o Llanfair Caereinion.

Mae enwau afonydd a nentydd ymhlith yr enwau hynaf sydd gennym; mae'n debygol fod yr elfen gyntaf yn Efyrrwy i'w gysylltu â'r ffurf 'ebur' mewn Hen Gymraeg. Mae'r ail elfen '-nwy' yn digwydd mewn enwau personol a gallai hynny awgrymu mai duw Celtaidd sy'n cael ei goffâu yma; mae'n bosibl ei fod yn cael ei goffâu, yn ogystal, yn Eburacum, yr enw Rhufeinig ar Efrog.

PONTROBERT

Croesi afon Efyrrwy wna'r bont ym mhentref Pontrobert. Yn ôl traddodiad lleol Robert ap Oliver a adeiladodd bont gerrig yma yn 1669 wedi i storm ffyrnig yn 1622 amddifadu'r pentref o bont. Lledodd enw'r cymwynaswr i fod yn enw ar y pentref - Pontrobert.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.co.uk



Diolch Mrs Llwyd



Plant Ysgol Gynradd Llanwnnen yn ffarwelio gyda'i hathrawes Cyfnod Sylfaen, Mrs Enfys Llwyd, wrth iddi ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn ysgol eleni. Mae Mrs Llwyd wedi rhoi saith mlynedd ar hugain o wasanaeth i'r ysgol ac ar ddiwrnod olaf y tymor cyflwynodd fainc arbennig i blant yr ysgol. Bydd yr Ysgol yn wahanol iawn ym mis Medi heb ei phresenoldeb. Dymuna'r ysgol ymddeoliad hapus a hir iddi ac yn diolchir iddi am ei gwasanaeth arbennig dros y blynyddoedd.

Priodas dda



Priodwyd yng Nghapel Aberduar ar ddydd Gwener 31ain o Orffennaf Lowri merch Neal ac Ann Wilson, Glanrhyd, Llanybydder a Carwyn mab Bryn a Helena Gregson, Werna Cwmann. Mae'r ddau yn byw bellach yn Gwynfryn, Cwmann. Llyn gan Celf Calon.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

S4C



y gwyl!
hinterland

9.00

13 Medi

Dirgelwch a chelwyddau, mae'r gyfres dditectif yn ôl!

#ygywll

Diwedd Cyfnod gyda chau drysau Gwesty'r Grannell



Aelodau Sefydliad y Merched, Llanwnnen yn dangos eu gwerthfawrogiad i Siriol a Susan Evans am gael cyfarfod yng Ngwesty'r Grannell dros y blynnyddoedd drwy gyflwyno anrheg wedi'i wneud o lechen iddynt.



Cynghorwyr Cymuned Llanwnnen yn diolch i Siriol a Susan Evans, perchnogion Gwesty'r Grannell, am eu gwasanaeth i'r pentref dros ddeg mlynedd ar hugain ac yn cyflwyno plât iddynt yn arddangos rhai o nodweddion y pentref.



Côr Lleisiau'r Werin, Llanwnnen yn canu ar lwyfan 'Moliant y Maes' yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau.



Angen cyrraedd meddygfeydd a fferyllfeydd?

... Bwcabus – caniatáu ichi deithio i ble bynnag a phryd bynnag y bydd angen



Gwasanaeth yw Bwcabus a fydd yn codi teithwyr o'u harosfannau bysiau agosaf, serch hynny gall teithwyr sydd ag anawsterau symud gael eu casglu a'u gollwng yn/neu'n agos at eu cyfeiriad cartref cyhyd â bod man diogel ac ymarferol i wneud hynny.

Hyblyg, Rhesymol, Economaidd, Cyfleus



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government